Centre of expertise on child sexual abuse

# Ariannu a chomisiynu gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol

## Pam mae'n bwysig, a sut i'w wneud yn dda



Ionawr 2025

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Ganolfan CPRh)

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw'n rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:

- cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o'i raddfa a'i natur
- sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad sy'n cam-drin yn rhywiol.

Rydym yn ceisio cyflwyno'r newidiadau hyn drwy:

- cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i'n gwefan yn:
**www.csacentre.org.uk**

Ysgrifennwyd yr adnodd hwn gan Stephanie Kewley a Shauna Breen o'r Ganolfan CPRh.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 4

**Rhan A: Pam rhoi blaenoriaeth i wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol? ..... 8**

2. Beth yw cam-drin plant yn rhywiol? ........ 9

3. Graddau cam-drin plant yn rhywiol ........ 14

4. Yr effeithiau a'r costau ariannol o gam-drin plant yn rhywiol ........ 17

5. A yw gwasanaethau'n gallu dal i gwrdd â'r angen? ........ 19

**Rhan B: Sut mae gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol yn gallu gwneud gwahaniaeth? ........ 21**

6. Atal ac ymyrryd â cham-drin plant yn rhywiol ........ 22

7. Ymateb i ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, a'u teuluoedd .. 26

**Rhan C: Penderfynu pwy a beth i'w ariannu/comisiynu ........ 32**

8. Canllawiau llywodraeth ........ 33

9. Deall yr angen yn eich ardal leol: yr Hyb Mewnwelediadau Data ........ 36

10. Deall y ddarpariaeth leol: y Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth ........ 39

11. Mapio'r ddarpariaeth o wasanaethau ar sail angen: y matrics cymorth cam-drin plant yn rhywiol ........ 41

**Rhan D: Cynorthwyo darparwyr gwasanaethau ........ 44**

12. Beth sydd ar ddarparwyr gwasanaethau ei eisiau a'i angen gan y rheini sy'n eu hariannu/comisiynu? ........ 45

13. Cymorth i fonitro a gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau .... 49

14. Cymorth i wella systemau casglu data a dulliau dadansoddi ........ 50

15. Cymorth ar gyfer hyfforddi ac uwchsgilio ........ 52

**Cyfeirnodau ........ 53**

**Atodiadau ........ 56**

Atodiad 1. Adnoddau eraill o'r Ganolfan CPRh ........ 57

1.

# Cyflwyniad

Rydym ni yn y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh) yn cydnabod nad mater hawdd yw ariannu a chomisiynu gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol. Mae nifer o alwadau eraill yn cystadlu â'i gilydd am arian o gyllidebau, ac – fel y mae Fframwaith Comisiynu Llywodraeth y DU ar gyfer Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol yn cydnabod – mae'r tirlun o ran comisiynu yn un cymhleth ac fe all fod yn ddigyswllt.

Ledled Cymru a Lloegr, mae gwasanaethau yn y sectorau nid-er-elw, statudol a phreifat yn darparu cymorth hanfodol i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol – neu maent yn gweithio i atal cam-drin o'r fath rhag digwydd neu ailddigwydd. Ond mae'r angen am y gwasanaethau hyn yn fwy o lawer na'r cyflenwad ohonynt sydd ar gael.

Os ydych chi'n ymwneud â dyrannu cyllidebau i wasanaethau yn eich ardal leol, bydd y canllaw byr hwn o gymorth i chi:

- drwy amlinellu'r angen am ariannu a chomisiynu rhagor o wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol – a'r angen i wneud hynny'n fwy effeithiol
- drwy dynnu'ch sylw at gyhoeddiadau ac adnoddau rhyngweithiol y Ganolfan CPRh sy'n gallu'ch helpu i ddeall yr angen lleol am y gwasanaethau hynny a'u helpu nhw i gwrdd â'r angen hwnnw.

## 1.1 Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?


Mae'r canllaw hwn ar gyfer cyllidwyr a chomisiynwyr yn yr holl gyrff yng Nghymru a Lloegr sydd â chyfrifoldebau sy'n cynnwys gwasanaethau yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol. Mae hyn yn cynnwys, ymysg eraill, awdurdodau lleol, GIG Cymru ac NHS England, Byrddau Gofal Integredig a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu.

## 1.2 Sut bydd yn eich helpu i fynd drwy'r cylch comisiynu?

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cynhyrchu gwahanol fathau o ganllawiau statudol a deunyddiau eraill sy'n berthnasol i gam-drin plant yn rhywiol a'r ffordd i ymateb iddo. (Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y rhain ym Mhennod 8.) Mae'r canllaw hwn wedi'i fwriadu i ategu'r deunyddiau hynny, ac mae mewn pedair rhan:

- **Rhan A** sy'n cyflwyno gwybodaeth glir a chryno o blaid rhoi blaenoriaeth i wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol wrth wneud penderfyniadau ar ariannu/comisiynu.
- **Rhan B** sy'n amlinellu'r gwahanol fathau o wasanaethau sydd eu hangen er mwyn ymateb yn effeithiol i achosion o gam-drin plant yn rhywiol – boed drwy atal y cam-drin hwnnw neu drwy gynorthwyo'r rheini sydd wedi'u heffeithio ganddo – ac yn disgrifio rhai elfennau allweddol mewn gwasanaethau effeithiol.
- **Rhan C** sy'n crynhoi'r canllawiau gan y Swyddfa Gartref ar asesu'r angen am gymorth cam-drin plant yn rhywiol, a'r gofyniad i gynnal asesiad anghenion ar y cyd o dan y 'ddyletswydd cydweithredu' newydd wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr. Wedyn mae'n trafod adnoddau sydd ar gael gan y Ganolfan CPRh i'ch helpu i asesu'r angen hwnnw yn eich ardal leol.
- **Rhan D** sy'n egluro beth allwch chi ei wneud i sicrhau bod y gwasanaethau rydych yn eu hariannu neu eu comisiynu yn rhai sydd yn y lle gorau i gwrdd ag angen y plentyn am gymorth cam-drin plant yn rhywiol.

**Ffigur 1. Y cylch comisiynu**




Addaswyd o Sefydliad Gofal Cyhoeddus (2014).

Yng nghyd-destun y cylch comisiynu sydd wedi'i ddatblygu gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (gweler Ffigur 1), bydd y canllaw hwn yn eich helpu ar bob un o'r pedwar cam yn y cylch ar gyfer comisiynu gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol. Rydym yn sylweddoli y gallech fod â nifer o gyfrifoldebau o ran comisiynu ac y gallech gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau a phrosesau cymhleth o lawer math ar bob cam yn y cylch – felly efallai y bydd o gymorth i chi droi at y rhannau perthnasol o'r canllaw fel y bo angen, yn hytrach na'i ddarllen o'r dechrau i'r diwedd.

## Dadansoddi

Er mwyn eich helpu i gasglu sylfaen dystiolaeth a gwybodaeth sylfaenol gyfredol am y risgiau, anghenion ac adnoddau yn eich ardal leol,

- bydd **Pennod 9** yn eich helpu i ddeall pa mor gyffredin yw cam-drin plant yn rhywiol, a pha ddarpariaeth o wasanaethau sydd ar gael i ymateb iddo ar hyn o bryd, yn eich ardal leol drwy ddefnyddio ein **Hyb Mewnwelediadau Data** – dangosfwrdd ar-lein sydd ar gael yn rhad ac am ddim i'ch galluogi i baratoi gwybodaeth hawdd ei dehongli ar gyfer unrhyw ardal awdurdod lleol neu heddlu yng Nghymru a Lloegr.

- Mae **Pennod 10** yn egluro sut y gallwch ddefnyddio ein **Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth** i gael gwybod am y gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol sydd ar gael yn eich ardal leol a sut i gysylltu â nhw. Drwy ddod i adnabod darparwyr gwasanaethau lleol, bydd modd i chi feithrin cysylltiadau cryf a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell.

Yn ogystal â hyn, mae **Pennod 8** yn crynhoi gwahanol **ddogfennau canllaw Llywodraeth y DU** i'ch helpu i gyflawni'ch cyfrifoldebau wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth cymunedol lleol i ddioddefwyr cam-drin domestig, cam-drin rhywiol a thrais difrifol.

Ac mae **Pennod 4** yn amlinellu'r **effeithiau a'r costau i gymdeithas** o gam-drin plant yn rhywiol, er y dylech fod yn ymwybodol bod ein dealltwriaeth o'r holl gostau cymdeithasol ac economaidd o gam-drin plant yn rhywiol yn gyfyngedig am fod cymaint o'r cam-drin hwn yn aros yn anhysbys (neu heb ei gofnodi mewn data swyddogol).

## Cynllunio

Er mwyn eich helpu ar gam cynllunio'r cylch comisiynu:

- mae **Pennod 11** yn dangos sut byddwch chi, drwy ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o'r Hyb Mewnwelediadau Data a'r Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth, yn gallu cymharu'r angen a'r cymorth sydd ar gael yn eich ardal leol. Mae'n disgrifio ein **matrics cymorth cam-drin plant yn rhywiol**, offeryn archwilio lle byddwch yn gallu mapio'ch canfyddiadau, ac mae'n nodi cwestiynau allweddol i chi eu hystyried yn ystod gwaith mapio.

- Mae **Pennod 12** yn darparu mewnwelediad gan ddarparwyr gwasanaethau i'ch helpu i ddatblygu asesiad anghenion ar y cyd a strategaeth comisiynu ar y cyd. Wrth bwysleisio'r pwysigrwydd o gydweithredu â darparwyr gwasanaethau yn eich ardal leol, mae'n amlinellu **chwe blaenoriaeth allweddol** i gomisiynwyr a chyllidwyr er mwyn cynyddu effaith ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

- Mae **Pennod 6 a 7** yn cynnig disgrifiad o ystod y ddarpariaeth o wasanaethau a ddylai fod ar gael – i atal ac ymyrryd â cham-drin plant yn rhywiol drwy dargedu'r rheini sy'n peri risg o niweidio plant a hefyd i ymateb yn effeithiol i anghenion dioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd. Bydd hyn yn eich helpu i gydweithio â'r rheini a allai ddarparu gwasanaethau er mwyn cynllunio dulliau darparu effeithiol, drwy harneisio adnoddau a chapasiti gwirfoddol a chymunedol. Drwy gynllunio'r ddarpariaeth o wasanaethau ar sail y nodweddion rhaglen hyn, byddwch yn gallu datblygu gofynion a chanlyniadau i'w hasesu wrth ddarparu gwasanaethau. Mae gwybodaeth hefyd ym Mhennod 7 am ein **Llwybr Ymateb Cam-drin Plant yn Rhywiol**, sy'n gallu'ch helpu i ddeall rolau'r gwahanol weithwyr proffesiynol ac asiantaethau wrth ddarparu'r ystod angenrheidiol o wasanaethau i atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

## Cyflawni

Yn ogystal â chomisiynu gwasanaethau, mae'r cam hwn hefyd yn ymwneud â datblygu cyflenwyr a rheoli newid:

- mae **Pennod 14** yn egluro pam dylai darparwyr gwasanaethau gasglu a chofnodi data am gam-drin plant yn rhywiol mewn ffordd gyson a systematig – bydd hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwell, seiliedig ar dystiolaeth ac i ddarparu gwasanaethau gwell, a bydd yn gallu'ch helpu yn eich proses adolygu comisiynu i fesur a chofnodi perfformiad a chanlyniadau a'u cymharu â chostau. Mae'n dangos wedyn sut mae ein **Templed Casglu Data** yn gallu helpu darparwyr gwasanaethau i wella ansawdd eu data.

- Mae **Pennod 15** yn tynnu'ch sylw at wasanaethau ac adnoddau sydd ar gael gan y Ganolfan CPRh i helpu darparwyr gwasanaethau i **hyfforddi ac uwchsgilio** eu staff, os byddant yn cael y cymorth a'r cyllid sydd eu hangen.

## Adolygu

Mae casglu adborth ac adolygu cyflawniadau a chanlyniadau yn agweddau hanfodol ar y cam adolygu, ac mae'r canllaw hwn yn gallu'ch helpu gyda'r gweithgareddau hyn hefyd:

- mae **Pennod 13** yn disgrifio adnoddau sydd ar gael gan y Ganolfan CPRh y gall darparwyr y gwasanaethau a gomisiynwyd eu defnyddio, gyda'ch cymorth chi, i **fonitro a gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd eu gwasanaethau**. Gall hyn eu helpu i lunio achos busnes dros barhau i'w hariannu neu eu hariannu yn y dyfodol, a gall eich helpu chi i ddilyn strategaeth cydgomisiynu.

## 1.3 Termau

Er mwyn bod yn eglur, ystyr y term '**plentyn**' yn y canllaw hwn yw unrhyw un o dan 18 oed. Mae'n bwysig cofio bod y glasoed, yn ogystal â phlant iau, yn gallu profi cam-drin plant yn rhywiol.

Rydym yn arfer y term '**dioddefwyr/goroeswyr**' ar gyfer pobl sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod eu plentyndod, ar y sail y gallent eu hystyried eu hunain yn rhai sydd wedi dioddef neu oroesi'r cam-drin hwnnw, neu gyfuniad o'r ddau.

Rydym wedi dewis peidio â defnyddio rhai termau sydd weithiau'n cael eu deall yn wahanol, neu'n peri i rai pobl deimlo'n anghyfforddus:

Yn hytrach na 'chyflawnwyr', 'camdrinwyr' neu 'droseddwyr rhyw', rydym yn cyfeirio (mewn perthynas ag oedolion) at **bobl sydd wedi cam-drin plant yn rhywiol**.

Yn hytrach na chyfeirio at 'gam-drin gan gymheiriaid' neu 'gam-drin rhwng cymheiriaid' gan rai o dan 18 oed, rydym yn sôn am **ymddygiad rhywiol niweidiol**.

Yn lle 'datgelu', rydym yn sôn am **ddweud wrth weithiwr proffesiynol** neu eiriau tebyg. Fe all 'dweud wrth' gynnwys cyfathrebu geiriol a/neu aneiriol.

Ystyr y term '**rhiant**' yn y canllaw hwn yw rhywun sy'n cyflawni rôl rhianta neu brif rôl gofalu tuag at y plentyn; gall fod yn rhiant biolegol, yn llys-riant, yn rhiant mabwysiadu, yn rhiant maethu neu'n berthynas arall sy'n cyflawni'r rôl honno.

# Rhan A: Pam rhoi blaenoriaeth i wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol?

Rydym yn gwybod bod llawer o wahanol bwysau ar eich cyllideb ariannu/comisiynu sy'n cystadlu â'i gilydd – ond mae'n cael ei gydnabod fwyfwy fod angen ymateb i gam-drin plant yn rhywiol i raddau mwy o lawer ac ar fwy o frys nag a wneir ar hyn o bryd.

Mae'r galw am wasanaethau sy'n ymateb i gam-drin o'r fath wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, yn rhannol am fod mwy o ddioddefwyr/goroeswyr yn dod ymlaen ac yn chwilio am gymorth – ond mae mwy o lawer eto nad ydynt yn dod i sylw gwasanaethau.

Yn y penodau sy'n dilyn, mae cyflwyniad byr sy'n egluro beth yw cam-drin plant yn rhywiol: sut rydym yn gallu sylwi arno, pa mor gyffredin yw ef, a'r effeithiau a'r costau sy'n dod yn ei sgil. Wedyn mae Pennod 5 yn edrych ar y gallu sydd gan wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol i gwrdd â'r angen amdanynt.

Mae croeso i chi ddefnyddio'r cynnwys hwn yn eich dogfennau strategaeth ac mewn deunydd arall.

# 2. Beth yw cam-drin plant yn rhywiol?

2.

Y cam cyntaf wrth ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yw deall y nifer o fathau o ymddygiad y mae'n eu cynnwys, a'r gwahanol gyd-destunau lle mae'n gallu digwydd. Yn y bennod hon, mae crynodeb o beth rydym yn ei wybod am gam-drin o'r fath, a dolennau at adnoddau'r Ganolfan CPRh sy'n rhoi mwy o fanylion.

Y diffiniad o gam-drin plant yn rhywiol gan Lywodraeth Cymru yw:

> *"…gorfodi neu ddenu plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd neu beidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithrediadau treiddgar neu weithrediadau nad ydynt yn dreiddgar; gweithgareddau heb gyswllt, fel ymhél plant i edrych ar, neu gymryd rhan mewn, cynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol annerbyniol." (Lywodraeth Cymru, 2019:4*

Mae'n ofynnol i gyllidwyr a chomisiynwyr roi ystyriaeth i ffyrdd i ymateb i bob math o gam-drin plant yn rhywiol. Os byddwch yn dyrannu adnoddau i ganolbwyntio'n llwyr neu'n bennaf ar un math ohono, fel cam-drin plant yn rhywiol yng nghyd-destun camfanteisio rhywiol,[1] bydd perygl i chi beidio â chynnwys gwasanaethau sy'n ymateb i fathau eraill o gam-drin fel cam-drin yn amgylchedd y teulu. (Mae hyn wedi bod yn ddatblygiad cyffredin yng Nghymru a Lloegr dros y degawd diwethaf – ac, yn fwy diweddar, gwelwyd mwy o symud oddi wrth gamfanteisio rhywiol ar blant tuag at gamfanteisio *troseddol* ar blant fel bod llai byth o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i gam-drin plant yn rhywiol o unrhyw fath.)

1. Y diffiniad o gamfanteisio rhywiol ar blant gan Lywodraeth Cymru yw *math o gam-drin plant yn rhywiol* sy'n cynnwys cyfnewid o ryw fath. "Gall y cyfnewid gynnwys rhoi neu dynnu rhywbeth yn ôl, megis atal trais neu fygythiadau i gam-drin unigolyn arall. Efallai y bydd hwylusydd sy'n derbyn rhywbeth yn ogystal â'r plentyn sy'n cael ei gamfanteisio neu yn ei le. Efallai na fydd plant yn cydnabod natur gamfanteisiol y berthynas neu'r cyfnewid. Efallai y bydd plant yn teimlo fel eu bod wedi rhoi eu caniatâd.sy'n gallu cynnwys rhyw neu unrhyw fath o weithgaredd rhywiol â phlentyn; creu delweddau anweddus, a/neu unrhyw ddeunyddiau anweddus eraill sy'n ymwneud â phlant." (Lywodraeth Cymru, 2019:4).

## 2.1 Cam-drin plant yn rhywiol gan oedolion

Yn 2020 roedd y Ganolfan CPRh, drwy gydweithio â'r Ganolfan Astudiaethau Cam-drin a Thrawma ym Mhrifysgol Middlesex, wedi datblygu teipoleg a oedd yn categoreiddio troseddu drwy gam-drin plant yn rhywiol gan oedolion o dan y naw math canlynol (gweler Ffigur 2 hefyd):

- Cam-drin plant yn rhywiol o fewn amgylchedd y teulu. Cam-drin plentyn yn rhywiol gan oedolyn sy'n aelod o'r teulu, neu gan oedolyn sydd â chysylltiad â'r teulu neu un o'i aelodau.

- Cam-drin plant yn rhywiol drwy berthynas yr ymddiriedir ynddi y tu allan i amgylchedd y teulu. Cam-drin plentyn yn rhywiol gan oedolyn sydd mewn safle o ymddiriedaeth, ac sydd ag awdurdod drosto, o ganlyniad i rôl broffesiynol neu alwedigaethol. Gall y cam-drin gael ei gyflawni mewn sefydliadau neu yn y gymuned.

- Cam-drin plant yn rhywiol drwy gyfryngwr. Cam-drin plentyn yn rhywiol lle mae oedolyn (y symbylydd) yn cael mynediad at y plentyn, neu at luniau o'r plentyn, drwy oedolyn arall (y cyfryngwr). Gall y cyfryngwr gredu ei fod mewn perthynas agos â'r symbylydd, neu gall gael ei orfodi i hwyluso'r cam-drin.

- Cam-drin plant yn rhywiol drwy ryngweithio ar-lein. Cam-drin plentyn yn rhywiol lle mae oedolyn, drwy weithredu ar-lein, yn cymell/twyllo/gorfodi plentyn i gymryd rhan mewn sgyrsiau o natur rywiol neu weithredoedd rhywiol ar-lein, a/neu i gynhyrchu lluniau (ffotograffau neu fideos) ohono'i hun y bydd yn eu rhannu â'r oedolyn ar-lein.

- Cam-drin plant yn rhywiol drwy wylio, rhannu neu feddu ar luniau. Gwylio neu feddu ar luniau o gam-drin plant yn rhywiol (ffotograffau neu fideos) sydd wedi'u creu'n barod, a/neu rannu lluniau o'r fath ag eraill, ar-lein fel arfer ond mewn ffyrdd eraill hefyd.

- Cam-drin plant yn rhywiol drwy grwpiau a rhwydweithiau. Cam-drin plentyn yn rhywiol gan oedolion sy'n rhan o grŵp neu rwydwaith; gallant gwrdd wyneb yn wyneb, neu ryngweithio ar-lein ac aros yn ddienw. Gall y cam-drin gynnwys cam-drin drwy gyffwrdd a/neu greu/rhannu lluniau o gam-drin plant yn rhywiol. Caiff ei hwyluso a'i hyrwyddo drwy'r grŵp/rhwydwaith – gall yr aelodau gydgynllunio a/neu ysgogi ei gilydd i gyflawni'r cam-drin neu gynyddu'r cam-drin.


- Cam-drin plant yn rhywiol wedi'i drefnu a'i gyflawni am dâl. Cam-drin rhywiol lle mae oedolyn, yn gyfnewid am dâl ariannol neu dâl o fath arall, yn cynnig mynediad at blentyn i eraill er mwyn ei gam-drin drwy gyffwrdd a/neu'n creu ac yn gwerthu lluniau (ffotograffau neu fideos) o gam-drin, e.e. drwy ffrydio byw.

- Cam-drin plant yn rhywiol drwy gysylltiad personol. Cam-drin gan oedolyn sy'n sefydlu cysylltiad personol gyda phlentyn ac yn meithrin perthynas amhriodol gyda'r plentyn neu'n ei orfodi i gael ei gam-drin yn rhywiol.

- Cam-drin plant yn rhywiol drwy ymosod gan rywun anhysbys. Cam-drin lle mae oedolyn nad yw'r plentyn yn ei adnabod yn ymosod ar y plentyn ac yn ymosod arno'n rhywiol .

Dylech gofio bob amser fod cam-drin plant yn rhywiol yn fater cymhleth – yn aml bydd yn cynnwys mwy nag un o'r mathau uchod. Yn ogystal â hyn, er bod dau o'r mathau hyn yn cyfeirio'n benodol at gam-drin mewn cyd-destunau ar-lein, fe welir elfennau o gam-drin ar-lein yn y mathau eraill hefyd yn aml.

**Ffigur 2. Teipoleg troseddau gan oedolion**




I gael mwy o wybodaeth, gweler y cyhoeddiadau hyn gan y Ganolfan CPRh:

- ***Teipoleg Newydd o Droseddau Cam-drin Plant yn Rhywiol***
- ***Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Gam-drin Plant yn Rhywiol o fewn y Teulu***
- ***Negeseuon Allweddol o Ymchwil i Gam-drin Plant yn Rhywiol mewn Cyd-destunau Sefydliadol***
- ***Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Blant sy’n Derbyn Gofal ac ar Gam-drin Plant yn Rhywiol***
- ***Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Oedolion yn Cam-drin Plant yn Rhywiol mewn Cyd-destunau Ar-lein***

## 2.2 Ymddygiad rhywiol niweidiol gan blant

Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod cyfran sylweddol o'r achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn ymwneud ag ymddygiad rhywiol niweidiol gan blant eraill, yn cynnwys brodyr neu chwiorydd. Mae'r term 'ymddygiad rhywiol niweidiol' yn cwmpasu nifer o wahanol fathau o ymddygiad y gall plentyn eu dangos, yn amrywio o'r rheini sy'n 'amhriodol' (oherwydd oed y plentyn neu'r cyfnod yn ei ddatblygiad) i ymddygiadau 'problemus', 'camdriniol' a 'threisgar'– gweler Ffigur 3.

**Ffigur 3. Continwwm ymddygiadau rhywiol plant**

| Normal | Amhriodol | Problemus | Camdriniol | Treisgar |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu yn ôl y disgwyl | Achosion unigol o ymddygiad rhywiol amhriodol | Ymddygiadau problemus a rhai sy'n peri pryder | Bwriad i erlid neu erledigaeth yn ganlyniad | Cam-drin rhywiol corfforol dreisgar |
| Cymdeithasol dderbyniol | Ymddygiad cymdeithasol dderbyniol o fewn y grŵp cyfoedion | Anarferol o ran datblygiad ac yn annisgwyl yn gymdeithasol | Yn cynnwys camarfer grym | Ymwthgar iawn |
| Cydsyniol, cilyddol | Gall cyd-destun yr ymddygiad fod yn amhriodol | Dim elfennau o erledigaeth agored | Gorfodaeth i sicrhau cydymffurfio | Trais cyfryngol sy'n peri cynnwrf seicolegol a/ neu rywiol yn y plentyn sy'n dangos yr ymddygiad |
| Penderfynu ar y cyd | Cydsyniol a chilyddol gan mwyaf | Gall ystyriaethau o ran cydsynio fod yn aneglur | Ymwthgar | Sadistiaeth |
| | | Gellir cael diffyg cilyddiaeth neu ddiffyg grym cyfartal | Diffyg cydsyniad ar sail gwybodaeth, neu nid yw'r dioddefwr yn gallu cydsynio o'i wirfodd | |
| | | Gall gynnwys lefelau o orfodedd | Gall gynnwys elfennau o drais mynegiannol | |

Ffynhonnell: Hackett (2010).

Yn debyg i gam-drin sy'n cael ei gyflawni gan oedolion, mae'r ymddygiadau hyn yn gallu digwydd mewn nifer o gyd-destunau, er enghraifft, ar-lein, yn yr ysgol ac o fewn cartref y teulu. Y casgliad mewn ymchwil gan Ofsted oedd bod aflonyddu a cham-drin rhywiol gan blant mewn ysgolion yn ymddygiadau sy'n gyffredin ac wedi'u 'normaleiddio'.

Ymysg plant cyn y glasoed, mae ymddygiad rhywiol niweidiol yn fwy tebygol o fod ym mhen 'amhriodol' neu 'broblemus' y continwwm.

I gael mwy o wybodaeth, gweler y cyhoeddiadau hyn gan y Ganolfan CPRh:

- ***Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Blant a Phobl Ifanc sy'n Arddangos Ymddygiad Rhywiol Niweidiol***
- ***Cam-drin Rhywiol rhwng Brodyr a Chwiorydd: Golwg Gyffredinol ar Wybodaeth ac Ymarfer***

## 2.3 Pwy sy'n gysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol?

Mae ymchwil yn dangos bod plant gan amlaf yn cael eu cam-drin yn rhywiol gan bobl y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt – ac mai oedolion gwrywaidd yw bron pawb sy'n cael euogfarn am gam-drin plant yn rhywiol, er ei bod yn bosibl bod cam-drin gan oedolion benywaidd yn fwy cyffredin nag y mae'r data am euogfarnau yn ei awgrymu.

Ychydig o ddata sydd ar gael am ethnigrwydd pobl sy'n cam-drin plant yn rhywiol. O gymharu â chyfansoddiad ethnig poblogaeth Cymru a Lloegr, mae cyfran fwy na'r cyfartaledd o ddiffynyddion a erlynir am droseddau cam-drin plant yn rhywiol yn bobl Wyn Brydeinig, ond mae'n debygol bod yr anghyfartaledd hwn yn gysylltiedig â'r ffaith bod llai o achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn cael eu canfod ar gyfartaledd mewn cymunedau ethnig leiafrifol yn gyffredinol.

Nid oes ffigurau cywir ar gael am gyffredinrwydd yr holl fathau o ymddygiad rhywiol niweidiol ymysg plant. Mae ymchwil yn dangos bod plant sy'n amlygu ymddygiad rhywiol niweidiol, yn enwedig os ydynt yn iau na'r glasoed a/neu fod yr ymddygiad wedi'i gyfeirio at eu brodyr neu chwiorydd, yn rhai sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol eu hunain neu wedi profi mathau eraill o drawma neu esgeuluster.

Mae pob plentyn yn agored i'r perygl o gam-drin rhywiol, ond mae rhai plant yn byw mewn amgylchiadau sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed na'r boblogaeth gyffredinol. Yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2019, er enghraifft, roedd ymatebwyr a oedd wedi derbyn gofal yn blant yn fwy tebygol o lawer o ddweud eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod eu plentyndod, fel roedd y rheini sydd ag anableddau a'r rheini a oedd wedi profi esgeuluster yn ystod plentyndod.

I gael mwy o wybodaeth, gweler y cyhoeddiadau hyn gan y Ganolfan CPRh:


- ***Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Gam-drin Plant sy'n Cael ei Gyflawni gan Oedolion***
- ***Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Oedolion yn Cam-drin Plant yn Rhywiol mewn Cyd-destunau Ar-lein***
- ***Interventions for Perpetrators of Child Sexual Exploitation: A Scoping Study***
- ***Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Blant a Phobl Ifanc sy'n Arddangos Ymddygiad Rhywiol Niweidiol***
- ***Negeseuon Allweddol o Ymchwil ar Ymddygiad Rhywiol Niweidiol mewn Cyd-destunau Ar-lein***
- ***Graddfa a Natur y Cam-drin Plant yn Rhywiol: Adolygu'r Dystiolaeth*** – aadroddiad cynhwysfawr am yr hyn a wyddom ac na wyddom am gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr, yn cynnwys manylion o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2019.

# 3. Graddau cam-drin plant yn rhywiol

Mae gwybodaeth allweddol yn y bennod hon am lefel yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr.

Fel y mae Ffigurau 4 a 5 yn dangos, mae bron hanner y troseddau rhywiol a gofnodir yn cael eu cyflawni yn erbyn plant, a chofnodwyd mwy na 100,000 o droseddau cam-drin plant yn rhywiol gan yr heddlu yn 2022/23 – ond **rhan fach yn unig** o gyfanswm yr achosion yw'r troseddau a gofnodir. Nid yw mwyafrif helaeth yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn dod i sylw gwasanaethau; yn wir, yn ôl ein hamcangyfrif ni, mae o leiaf un ym mhob 10 **o blant yng Nghymru a Lloegr yn cael ei gam-drin yn rhywiol cyn cyrraedd 16 oed**.[2]


**Ffigur 4. Mae plant yn fwy tebygol ar gyfartaledd o fod yn ddioddefwyr troseddau rhywiol**




Ffynonellau: gweler Karsna a Bromley (2024).

2. Mae'r amcangyfrif hwn wedi'i seilio ar ganfyddiadau o **arolwg camdriniaeth plant NSPCC** wedi'u cymhwyso at **amcangyfrif canol blwyddyn 2022** y Swyddfa Ystadegau Gwladol o nifer y plant dan 18 oed sy'n byw yng Nghymru a Lloegr.

**Ffigur 5. Mae mwy o lawer o blant yn cael eu cam-drin yn rhywiol nag sydd yn dod i sylw gwasanaethau**





Ffynonellau: gweler Karsna a Bromley (2024).

Gallwch greu'ch graffigyn eich hun i ddangos lefel yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn eich ardal leol, a'r ymateb i hynny gan yr heddlu a gwasanaethau plant yr awdurdodau lleol, drwy ddefnyddio **Hyb Mewnwelediadau Data** rhyngweithiol y Ganolfan CPRh.


Mae mwy o wybodaeth ym Mhennod 9 am yr Hyb Mewnwelediadau Data a sut i wneud y defnydd gorau ohono.

Mae Ffigur 6 yn dangos, ar sail arolwg mawr gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, fod cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod yr un mor gyffredin â cham-drin corfforol neu emosiynol – ond ei fod yn llai tebygol o gael ei ganfod na'r mathau hynny o gam-drin pan fydd gwasanaethau plant awdurdodau lleol yn Lloegr yn cynnal asesiadau o anghenion plant. A llai na 4% o'r cynlluniau amddiffyn plentyn newydd a ddarperir yn Lloegr bob blwyddyn sy'n nodi mai cam-drin rhywiol yw'r prif reswm dros eu creu.

**Ffigur 6. Mae cam-drin rhywiol yr un mor gyffredin â mathau eraill o gam-drin, ond mae'n llai tebygol o lawer o gael ei nodi/enwi yn bryder**




Sources: Office for National Statistics, Child abuse in England and Wales,2020, Department




Ffynonellau: gweler Karsna a Kelly (2021); Karsna a Bromley (2024).

Gallwch ***lawrlwytho'r ffeithluniau hyn***, ac eraill yn dangos yr ymateb gan asiantaethau statudol i achosion o gam-drin plant yn rhywiol, i'w defnyddio yn eich cyflwyniadau a'ch papurau briffio.

Ac mae mwy o wybodaeth ar gael yn y cyhoeddiadau hyn gan y Ganolfan CPRh:

- ***Cam-drin Plant yn Rhywiol yn 2022/23: Tueddiadau mewn Data Swyddogol*** – ein dadansoddiad blynyddol o'r data diweddaraf oddi wrth awdurdodau lleol, heddluoedd, sefydliadau cyfiawnder troseddol a chanolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol.
- ***Graddfa a Natur y Cam-drin Plant yn Rhywiol: Adolygu'r Dystiolaeth*** – adroddiad cynhwysfawr am beth rydym yn ei wybod a beth nad ydym yn ei wybod am gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr.

# 4. Yr effeithiau a'r costau ariannol o gam-drin plant yn rhywiol

4.

Mae profi cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod yn gallu arwain at effeithiau difrifol sy'n para gydol oes – ac, o ystyried y graddau y mae cam-drin o'r fath yn digwydd, mae'r costau cronnol i gymdeithas yn anferthol. Mae'r bennod hon yn cynnwys ychydig o wybodaeth allweddol sy'n cyfleu'r ddadl foesol ac economaidd dros gymryd camau i atal cam-drin plant yn rhywiol ac ymateb yn gyflym ac effeithiol pan fydd yn digwydd.

## 4.1 Ar lefel yr unigolyn a'r teulu

> *"All geiriau ddim gwneud cyfiawnder â maint yr effaith… Mae wedi effeithio ar bob agwedd ar fy modolaeth, fy nghorff, fy meddwl a fy enaid, ac mae'n parhau i wneud hynny. Roeddwn mor ifanc fel na fydda i byth yn gwybod pwy gallwn i fod wedi bod pe na bai erioed wedi digwydd." – cyfranogwr ym Mhrosiect Gwirionedd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol* (Jay et al, 2022)

Os caiff plentyn ei gam-drin yn rhywiol, gall hynny effeithio ar bob agwedd ar ei ddatblygiad. Bydd pob dioddefwr/goroeswr yn profi'r effaith mewn ffordd wahanol, ac i wahanol raddau, ond mae cysylltiad cryf rhwng cam-drin plant yn rhywiol a chanlyniadau niweidiol drwy gydol oes, yn cynnwys mewn perthynas â'r canlynol:

- **iechyd a llesiant meddyliol gwael**, e.e. iselder, anhwylderau bwyta, hunan-niweidio, hunanladdiad a meddwl am hunanladdiad, anhwylder straen wedi trawma ac anhwylderau personoliaeth
- **problemau iechyd corfforol**, yn cynnwys iechyd gastroberfeddol, iechyd gynaecolegol neu atgenhedlol, a phoen
- ymddygiadau allanoli fel **camddefnyddio sylweddau**, **ymddygiadau rhywiol sy'n cymryd risg** a **throseddu**
- anawsterau mewn **perthnasoedd rhyngbersonol a rhianta**
- ystyriaethau economaidd-gymdeithasol yn cynnwys lefelau is o **gyrhaeddiad addysgol** ac **incwm**
- bod yn agored i'r perygl o **brofi cam-drin rhywiol o'r newydd** yn ystod plentyndod ac ar ôl troi'n oedolyn.

Fe all effeithiau'r cam-drin gael eu dwysáu gan ffactorau sy'n cynnwys nodweddion a chefndir y plentyn, ei oed pan ddechreuodd y cam-drin, pa mor hir roedd wedi para, perthynas y plentyn gyda'r person(au) a oedd yn ei gam-drin, ei ymlyniad wrth ei riant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr, a phrofiadau eraill yn ystod plentyndod.

Yn sgil cam-drin rhywiol, bydd plant yn teimlo ofn, gwarth a chywilydd; bydd nifer sydd heb ddeall neu sydd heb y geiriau i ddisgrifio beth a ddigwyddodd iddynt, neu'n ofni na fydd neb yn eu credu os byddent yn dweud wrth rywun. Os bydd y plentyn yn dweud wrth rywun, bydd yr ymateb a gaiff hefyd yn effeithio ar ei adferiad o'r cam-drin.

Pan geir gwybod am achos o gam-drin plentyn yn rhywiol, neu pan fydd amheuaeth ei fod yn digwydd, bydd effaith sylweddol hefyd ar deulu'r plentyn. Os nad yw â rhan yn y cam-drin, gall y fam yn enwedig brofi effeithiau sy'n adlewyrchu'r effeithiau a brofir gan y plentyn sy'n cael ei gam-drin yn rhywiol, a gall fod ag angen cymorth i ymateb yn amddiffynnol.

I gael mwy o wybodaeth, gweler ein cyhoeddiad ***Negeseuon Allweddol o Ymchwil i Effeithiau Cam-drin Plant yn Rhywiol***.

## 4.2 Ar lefel cymdeithas

Mae ansicrwydd a chyfyngiadau'n codi wrth gyfrifo'r gost gymdeithasol ac economaidd gyffredinol o gam-drin plant yn rhywiol (Saied-Tessier, 2014), gan fod cymaint o'r cam-drin hwn yn aros o'r golwg (neu heb ei gofnodi mewn data swyddogol o leiaf).

Serch hynny, cafwyd amcangyfrif ddeng mlynedd yn ôl mai'r gost o gam-drin plant yn rhywiol i economi'r DU drwy golli cynhyrchiant dioddefwyr/goroeswyr oedd **£2.7 biliwn y flwyddyn**. Ac roedd yn bosibl priodoli gwariant ychwanegol ar iechyd o £1**82 miliwn y flwyddyn** i gam-drin plant yn rhywiol (i gwrdd ag anghenion iechyd meddyliol a chorfforol plant ac oedolion), ynghyd â gwariant o **£149 miliwn** yn y system cyfiawnder troseddol a gwariant o **£94 miliwn** ar wasanaethau gofal cymdeithasol i blant (Saied-Tessier, 2014).

Mewn ymchwil fwy diweddar, yn ymwneud â phlant yng Nghymru a Lloegr a gafodd eu cam-drin yn rhywiol yn ystod y flwyddyn 2018/19, amcangyfrifwyd mai cyfanswm y costau (rhai ariannol ac eraill sydd â gwerth ariannol) o'r cam-drin hwn dros oes y plant hyn oedd o **leiaf £10.1 biliwn** (Radakin et al, 2021). Nid oedd y ffigur hwn yn cynnwys costau cam-drin nad oedd yn ymwneud â chyffwrdd corfforol.

Ac mewn dadansoddiad o ddim ond 610 o achosion o gam-drin plant yn rhywiol, cafwyd bod oedi cyn datgelu ac ymateb yn dod â chost economaidd gydol oes i'r GIG o tua **£3 biliwn** (Adisa et al, 2023).

Fodd bynnag, pan geir ymateb amserol ac effeithiol i achosion o gam-drin plant yn rhywiol, fe geir buddion economaidd pendant. Er enghraifft, mewn dadansoddiad o wasanaeth therapiwtig i blant a oedd wedi'u cam-drin yn rhywiol gwelwyd, **am bob £1 a fuddsoddwyd, fod o leiaf £4.17 wedi'i wireddu mewn gwerth cymdeithasol** (Edwards, 2018).

# 5. A yw gwasanaethau'n gallu dal i gwrdd â'r angen?

5.

Mae'r effeithiau o gam-drin plant yn rhywiol yn gallu bod yn llai o lawer os bydd plant yn cael y cymorth priodol mewn da bryd – ac mae cymorth wedi iddynt ddod yn oedolion yn gallu lliniaru'r effeithiau hyn hefyd. Yn yr un modd, mae cymorth i blant sydd wedi amlygu ymddygiad rhywiol niweidiol yn gallu bod yn effeithiol iawn. Ond, fel y mae'r bennod hon yn dangos, dim ond cyfran fach iawn o'r bobl sydd ag angen gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol sy'n gallu cael mynediad atynt ar hyn o bryd.

## 5.1 Gwasanaethau i ddioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd

Yn yr adroddiad ymchwil Mae *Cymorth yn Cyfrif* a gyhoeddwyd gan y Ganolfan CPRh yn 2024, sy'n seiliedig ar ein hymchwil helaeth i wasanaethau cymorth cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr, dangoswyd bod gwasanaethau o'r fath yn brin yn y ddwy wlad.

Roedd gwahaniaethau sylweddol rhwng rhanbarthau, ac amcangyfrifwyd bod 10,000 o ddioddefwyr/goroeswyr am bob gwasanaeth a nodwyd yng Nghymru, ond bod dwywaith gymaint – 20,000 o ddioddefwyr/goroeswyr – am bob gwasanaeth yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Gan fod y rhan fwyaf o wasanaethau'n gweithio o fewn un rhanbarth yng Nghymru neu Loegr, roedd yn glir bod pobl sydd ag angen cymorth yn wynebu 'loteri cod post'.

Gwelsom fod ychydig yn fwy o wasanaethau i blant – plant hŷn yn bennaf – nag ar gyfer oedolion sy'n ddioddefwyr/goroeswyr.

O'r gwasanaethau sy'n cynorthwyo plant, roedd yn ymddangos bod bron dwy ran o dair ohonynt heb ddarpariaeth o gymorth i'w rhieni.

Roedd bylchau mawr hefyd yn y ddarpariaeth i bobl sy'n profi'r effaith o fathau penodol o gam-drin plant yn rhywiol, yn enwedig cam-drin yn amgylchedd y teulu ac mewn cyd-destunau ar-lein.

Ychydig iawn o wasanaethau y tu allan i Lundain – a dim yn Ne-ddwyrain neu Dde-orllewin Lloegr – a oedd yn canolbwyntio ar gynorthwyo pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol.

Roedd prinder gwasanaethau pwrpasol ar gyfer dynion/bechgyn sy'n profi effaith cam-drin plant yn rhywiol yn yr holl ranbarthau, a dim ond 67 o wasanaethau ledled Cymru a Lloegr a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ddarparu cymorth i fenywod/merched. Ar ben hynny, ychydig iawn o wasanaethau a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion pobl anabl, pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, neu ar bobl sy'n cwestiynu eu hunaniaeth rhywedd neu sydd â hunaniaeth drawsryweddol.

Roedd bron hanner y gwasanaethau a gyfwelwyd wedi dweud eu bod wedi cynorthwyo llai na 100 o bobl sy'n profi effaith cam-drin plant yn rhywiol yn 2021/22. Roedd lleiafrif bach, yn y sector nid-er-elw yn bennaf, wedi cynorthwyo miloedd o blant ac oedolion yn ystod y flwyddyn.

Dim ond hanner y gwasanaethau a gyfwelwyd a deimlai eu bod yn gallu cwrdd â'r galw am gymorth a oedd ganddynt. Roedd y rhan fwyaf o wasanaethau'n cyfyngu'r amser a oedd ar gael i roi cymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau, neu'n cyfyngu nifer y sesiynau roeddent yn eu cynnig; roedd cyfyngiadau o'r fath yn ymwneud yn aml â threfniadau ariannu, neu'r her o ddal i gwrdd â'r galw.

Roedd tri chwarter y gwasanaethau a gyfwelwyd yn y sector nid-er-elw, a bron hanner y gwasanaethau statudol, wedi dweud eu bod yn gweithredu gyda rhestrau aros ar gyfer pobl a oedd yn ceisio cymorth. Roedd 180 o bobl ar bob rhestr ar gyfartaledd ac, ar y sail honno, roeddem wedi amcangyfrif bod **tua 55,000 o bobl yng Nghymru a Lloegr yn aros ar restr i gael mynediad at gymorth mewn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol**.

Y cyfnod cyfartalog (cymedrig) a dreuliwyd ar restr aros oedd mwy na chwe mis, ac roedd y cyfnod aros ar un ym mhob naw o restrau yn fwy na blwyddyn.

Dywedwyd bod gweithredu rhestr aros yn effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau, drwy orfodi rhai gwasanaethau i leihau nifer y sesiynau cymorth a gynigiwyd neu i roi'r gorau i ddarparu cymorth penagored. Dywedodd eraill eu bod yn osgoi hysbysebu eu gwasanaeth rhag ofn i hynny arwain at restrau aros hirach.

Gallwch ddefnyddio ein **Hyb Mewnwelediadau Data i** gael gwybod am nifer y gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn eich ardal leol i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, a'r gymhareb rhwng nifer y gwasanaethau hynny a nifer y plant sy'n ddioddefwyr cam-drin rhywiol. I gael mwy o wybodaeth, gweler Pennod 9.

## 5.2 Gwasanaethau i blant sydd wedi dangos ymddygiad rhywiol niweidiol

ORoedd ein hymchwil ar gyfer yr adroddiad Mae *Cymorth yn Cyfrif* hefyd wedi dangos bod 61 o wasanaethau cymorth cam-drin plant yn rhywiol a oedd yn ymwneud yn bennaf â darparu cymorth i blant a oedd wedi cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol. Am nad oes ystadegau manwl ar gael i ddangos cyffredinrwydd yr holl fathau o ymddygiad rhywiol niweidiol, ni ellir dweud beth yw'r gymhareb rhwng nifer y gwasanaethau a nifer y plant a fyddai'n cael budd ohonynt – ond roeddem wedi cael gwybod bod mwy na hanner y gwasanaethau a gyfwelwyd yn rhai a oedd yn gweithredu rhestrau aros ar gyfer rhai neu'r cyfan o'r mathau o gymorth a gynigiwyd, neu eu bod ar fin gweithredu rhestr aros.

Roedd y cyfnod a gaiff ei dreulio ar y rhestrau aros hyn yn amrywio o ddau fis i un flwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am hyn yn ***Support Matters: Briefing for Policymakers, Funders and Commissioners***, neu yn ein hadroddiad ymchwil llawn ***Mae Cymorth yn Cyfrif: Cyd-destun Gwasanaethau Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru a Lloegr***.

# Rhan B: Sut mae gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol yn gallu gwneud gwahaniaeth?

Fel y mae'r penodau blaenorol wedi dangos, mae'r effeithiau o gam-drin plant yn rhywiol ar ddioddefwyr yn gallu bod yn ddifrifol a phara gydol oes, ac mae'r costau ariannol i gymdeithas yn aruthrol.

Serch hynny, rydym yn gwybod bod camau i fynd i'r afael â cham-drin o'r fath a'i effeithiau – drwy gynorthwyo pobl y mae wedi effeithio arnynt, a'i atal rhag digwydd – yn gallu bod yn effeithiol dros ben, ar yr amod bod yr elfennau priodol wedi'u cynnwys.

Mae'n bwysig cofio bod dioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol (yn cynnwys y rheini sydd bellach yn oedolion), a'u teuluoedd, yn gallu bod ag amryw o anghenion gwahanol – felly bydd galw am amrywiaeth o wasanaethau cymorth.

Yn y penodau sy'n dilyn, disgrifir y mathau o wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol a ddylai fod ar gael yn eich ardal leol, a'r mathau o gymorth y dylent ei gynnig.

6.

# 6. Atal ac ymyrryd â cham-drin plant yn rhywiol

> *"Bydd angen canolbwyntio i fwy o raddau ar atal ac ymatal wrth reoli troseddwyr rhyw at y dyfodol… Diwygio ac adsefyslu troseddwyr i atal troseddu pellach yw'r ffordd orau i wasanaethu ac amddiffyn dioddefwyr."* (Creedon, 2023)

Er mwyn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, mae angen dulliau o weithredu sy'n targedu pobl sy'n peri risg o gam-drin pobl eraill yn rhywiol; y canlyniad mwyaf dymunol yw atal cam-drin rhywiol ar blant rhag digwydd yn y lle cyntaf, ond nid oes digon o adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau'r canlyniad hwnnw. Yn y bennod hon, tynnir sylw at y rhan bwysig y mae'r sectorau statudol ac nid-er-elw yn gallu ei chwarae wrth ddarparu gwasanaethau sy'n ymyrryd â throseddu rhywiol a hefyd yn cynorthwyo pobl sy'n wynebu'r risg o droseddu.

## 6.1 Rhwystro ac atal cam-drin gan oedolion

Amcangyfrifwyd bod hyd at 1.6% o'r boblogaeth o oedolion yn y DU – tua 840,000 o oedolion – yn peri gwahanol raddau o risg rywiol i blant (Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, 2024). Er hynny, yn 2022 dim ond 6,500 o bobl yng Nghymru a Lloegr a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol yn erbyn plant (Karsna a Bromley, 2024).

Felly mae angen darparu cyllid ar gyfer gwahanol fathau o help a chymorth, yn amrywio o wasanaethau sy'n darparu gwasanaethau atal cynnar, lefel isel (e.e. addysg a chyngor) hyd at y rheini sy'n cynnig triniaethau ac ymyriadau dwysach (fel therapi ffarmacolegol a seicogymdeithasol) i roi sylw i risgiau ac anghenion sy'n gysylltiedig â throseddu.

Mae nifer bach o wasanaethau nid-er-elw yn cynnig cymorth am ddim sy'n helpu i rwystro ac atal pobl rhag cyflawni troseddau rhywiol yn y DU; maent yn dibynnu ar nifer o wahanol ffrydiau cyllido. Rhai enghreifftiau yw:

- **Sefydliad Lucy Faithfull**, sydd â'i wasanaethau atal yn cynnwys llinell gymorth Stop it Now! sydd ar gael am ddim i bawb sy'n pryderu am gam-drin plant yn rhywiol – yn cynnwys eu meddyliau neu eu hymddygiad eu hunain.

- **Circles of Support and Accountability (COSA)**, sy'n gweithio gyda phobl sydd eisoes wedi'u cael yn euog o drosedd rywiol ac sydd wedi'u hasesu'n rhai sy'n wynebu risg uchel o aildroseddu rhywiol; drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda gwirfoddolwyr a hyfforddwyd gan COSA, byddant yn cael cymorth ac yn cael eu dal yn atebol am eu hymddygiad.

- **The Safer Living Foundation**, sydd â'i bencadlys yn Nottingham, sy'n darparu cymorth ymarferol a chefnogaeth emosiynol i bobl sy'n pryderu am feddyliau a theimladau rhywiol afiach neu'n poeni y gallent gyflawni troseddau rhywiol. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cyfleoedd addysgol a hyfforddiant i bobl leol sydd wedi'u cael yn euog o droseddau ac yn ceisio byw bywyd adeiladol heb droseddu.

**Gwasanaethau seicolegol**

Mae darparu cymorth seicolegol yn gallu bod yn ffordd effeithiol i helpu oedolion sy'n pryderu am eu meddyliau a theimladau rhywiol. Er hynny, ychydig o wasanaethau seicolegol a therapiwtig fforensig arbenigol sydd ar gael drwy'r GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae rhai ymddiriedolaethau GIG yn darparu gwasanaethau arbenigol sy'n targedu pobl sy'n poeni am eu meddyliau a'u hymddygiadau – ond rhaid cael atgyfeiriad gan ymarferydd cyffredinol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, gwasanaethau gofal cymdeithasol neu iechyd meddwl plant cyn bod unigolyn yn gallu derbyn y cymorth arbenigol hwn. Mewn llawer achos, dim ond ar ôl cyflawni trosedd y bydd hyn yn digwydd.

Er mwyn helpu i atal cam-drin plant yn rhywiol, mae rhai therapyddion preifat sydd yn barod i weithio gyda phobl sydd heb weithredu eto ar sail meddyliau am gam-drin plentyn yn rhywiol. Fodd bynnag, mae yna rwystrau yn wynebu'r rheini sydd am dderbyn gwasanaethau o'r fath: yn ogystal â'r costau ariannol, gallent fod â phryderon o ran cyfrinachedd a'r canlyniadau cyfreithiol a chymdeithasol o geisio help, neu gallent deimlo dryswch ynghylch y mater hwn neu fod yn anymwybodol o'r help sydd ar gael.

## 6.2 Ymyrryd â throseddu gan yr heddlu

Ochr yn ochr â chamau gorfodi ac atal, ymyrraeth yw un o'r prif ffyrdd y bydd yr heddlu yn ymateb i amheuon am weithgarwch troseddol. Er mwyn ymyrryd â cham-drin rhywiol ar blant, rhaid gweithredu mewn ffordd hyblyg a dynamig i geisio ymyrryd â rhwydweithiau, ffyrdd o fyw a rheolweithiau, gan ei gwneud yn fwy anodd i bobl gyflawni troseddau rhywiol.

Rhai o'r mesurau ymyrryd a ddefnyddir gan yr heddlu yw:

- gorchmynion a hysbysiadau gwahardd troseddol a sifil sy'n cyfyngu rhai mathau o ymddygiad; gall y rhain ymyrryd â chysylltiadau rhwng yr un sydd dan amheuaeth a'r plentyn, a helpu i atal cam-drin pellach yn y tymor hwy
- marcwyr neu 'fflagiau' cudd-wybodaeth ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu i dagio cerbydau, pobl dan amheuaeth, lleoliadau, pobl sy'n agored i niwed a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol
- technoleg adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig sy'n gallu sbarduno camau gweithredu os bydd camera yn cael ei ysgogi
- llythyrau i rybuddio rhai dan amheuaeth y gellir eu rhoi mewn achosion lle mae amheuaeth o gam-drin plant yn rhywiol ond diffyg tystiolaeth o hynny
- y Cynllun Datgelu Troseddwyr Rhyw â Phlant sy'n rhoi hawl i'r heddlu hysbysu'r dioddefwr posibl/rhiant pan fydd risg i blentyn yn cael ei chanfod, ac yn rhoi hawl i'r cyhoedd ofyn am gael gwybodaeth am rywun y mae ganddynt bryderon yn ei gylch. Dim ond unigolion a gafodd euogfarn am droseddau rhywiol y gellir eu datgelu, a dim ond pan nodir bod y plentyn dan sylw yn wynebu risg.

Ochr yn ochr â gweithgareddau ymyrryd, mae'n bwysig gweithio gyda'r unigolyn sy'n peri pryder, os gellir, a'i helpu i ddelio â ffactorau biolegol, seicolegol a chymdeithasol penodol sy'n gysylltiedig â throseddu rhywiol.

## 6.3 Rhwystro ac atal ymddygiad rhywiol niweidiol

Yn yr un modd â gwasanaethau i oedolion, prin yw'r help sydd ar gael i blant sy'n cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol. Yn ein hymchwil ar gyfer Mae *Cymorth yn Cyfrif* i wasanaethau cymorth ledled Cymru a Lloegr, dim ond 61 o wasanaethau a nodwyd a oedd yn darparu cymorth ynghylch cam-drin plant yn rhywiol sy'n ymwneud yn benodol â phlant a oedd wedi cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol; roedd hanner ohonynt yn cynorthwyo'r plant hyn *yn unig*, a'r lleill yn darparu cymorth i ddelio ag ymddygiadau o lawer math.

Roedd dwy ran o dair o'r 61 o wasanaethau yn rhan o'r sector statudol (yn y GIG, mewn awdurdodau lleol, a'r asiantaethau cyfiawnder troseddol); roedd un rhan o bump wedyn yn rhan o'r sector preifat, ac un rhan o wyth ohonynt yn rhai nid-er-elw.

Un enghraifft o wasanaeth nid-er-elw i blant yn eu harddegau sy'n poeni am eu hymddygiad rhywiol nhw – neu un o'u ffrindiau – yw **Shore**, sy'n cael ei redeg gan Sefydliad Lucy Faithfull. Mae'n cynnig cyngor a chymorth yn ddienw i'w helpu i ddysgu am ffyrdd i reoli'r meddyliau sy'n peri pryder iddynt ac i fyw'n ddiogel ar-lein ac all-lein.

Mae mwy o wybodaeth am y 61 gwasanaeth hyn yn Atodiad 3 i'n hadroddiad ymchwil ***Mae Cymorth yn Cyfrif: Cyd-destun Gwasanaethau Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru a Lloegr***.

## 6.4 Pa fath o gymorth y dylid ei ddarparu

> *"Y ffordd orau i amddiffyn y cyhoedd yw cryfhau cymhelliant yr unigolyn a'i allu i fyw bywyd heb droseddu. Ond … mae rhai pobl sydd heb fod yn barod neu'n benderfynol o roi'r gorau i droseddu rhywiol, felly mae angen rheoli'r risgiau sy'n cael eu hachosi ganddyn nhw hefyd."* (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, 2024)

Er mwyn cymryd camau effeithiol i atal ac ymyrryd â cham-drin rhywiol ar blant drwy dargedu'r rheini y gwyddom neu y credwn eu bod yn peri risg, rhaid cyflawni ymyriadau a strategaethau mewn cyd-destun **amlddisgyblaethol**, a rhaid iddynt fod yn **gymesur** ac yn **ymatebol** i'r risg ac i anghenion y person sydd ag angen cymorth.

Wrth ymgymryd â gwaith atal gyda phlant, mae'n bwysig cofio bod ymddygiad rhywiol niweidiol gan blant cyn y glasoed yn debygol o fod ym mhen 'amhriodol' neu 'broblemus' y continwwm. Bydd y rhan fwyaf o blant cyn y glasoed sy'n amlygu'r ymddygiad hwn yn rhai sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol eu hunain neu wedi profi mathau eraill o drawma neu esgeuluster. Mewn modd tebyg, bydd y plant hŷn a phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol – bechgyn gan mwyaf – yn rhai sydd fel arfer â hanes o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac anawste rau teuluol.

Rhaid i'r gwasanaethau ar gyfer y plant hyn fod yn rhai cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a dylent gynnwys y rhieni/gofalwyr. Bydd angen gwybodaeth a sgiliau penodol ar weithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau hyn i allu creu cyd-destunau sefydliadol sy'n diogelu plant rhag eu cam-drin i'r graddau mwyaf posibl. Wrth ddarparu addysg ar gyfer atal ymddygiad rhywiol niweidiol, dylid trafod perthnasoedd iach dros y tymor hir gan ddefnyddio dull 'ysgol gyfan', a chynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu a chyflwyno'r addysg honno. Bydd angen cynnwys dulliau iechyd cyhoeddus ehangach hefyd sy'n herio anghydraddoldeb o ran rhywedd a gwerthoedd ac agweddau patriarchaidd.

Yn ogystal â gwasanaethau cyffredinol ym meysydd cyfiawnder troseddol, diogelu a/neu amddiffyn plant a lles oedolion, mae angen cael gwasanaethau ledled Cymru a Lloegr i bobl – o bob oed – sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n peri risg o gam-drin plant yn rhywiol. Dylai'r gwasanaethau hyn gymryd camau i atal ac ymyrryd â throseddu drwy'r dulliau penodol a ganlyn:

- Darparu cymorth ar y pryd – er enghraifft, rhywun y gellir siarad ag ef yn gyfrinachol drwy gyfleuster sgwrsio ar-lein neu linell gymorth (Naldrett et al, 2022) – ar gyfer oedolion sy'n pryderu am eu meddyliau neu deimladau rhywiol.
- Lle gwelwyd bod risg, cynnig help a chymorth un-i-un wedi'u seilio ar fodelau sy'n helpu'r oedolyn i ddelio â'i broblemau biolegol, seicolegol a chymdeithasol, gyda'r nod o feithrin cryfderau i drechu risg (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, 2024).
- Gweithio mewn ffordd amlddisgyblaethol, rhannu gwybodaeth a chynnwys asiantaethau partneriaid gyda'r nod cyffredin o reoli risg ac ailintegreiddio'n effeithiol mewn cymdeithas (Pwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop, 2021).
- Ystyried bod dulliau adsefydlu a rheoli risg yn rhai hanfodol, gan roi blaenoriaeth i amddiffyn y cyhoedd (Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, 2024).
- Sicrhau bod gwaith cymorth a chymorth un-i-un yn canolbwyntio ar ymatal (Creedon, 2023).
- Rhoi help i ddefnyddwyr gwasanaethau, a phobl ifanc yn enwedig, i ddatblygu neu ddysgu sgiliau neu strategaethau newydd i osgoi ymddygiad rhywiol niweidiol (Kewley et al, 2023).
- Wrth gynnig opsiynau ffarmacolegol a/neu seicoffarmacolegol, sicrhau bod y rhain yn ategu therapi ac nad ydynt yn cael eu darparu ar wahân (Knack et al, 2019).
- Sicrhau bod gwasanaethau therapiwtig yn ystyriol o drawma (McKibbin a Humphreys, 2020).
- Dylai ymyriadau gynnig gobaith a bod wedi'u seilio ar athroniaeth sy'n canolbwyntio ar y dyfodol; dylent helpu i adeiladu hunaniaethau rhywiol iach, hyrwyddo patrymau a naratifau perthynas iach ynghylch gwrywdod a benyweidd-dra, a herio normau a luniwyd gan gymdeithas ynghylch rolau gwrywaidd a benywaidd patriarchaidd (Kewley et al, 2023).

7.

# 7. Ymateb i ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, a'u teuluoedd

> *"Rydych chi'n hapus am fod gennych chi rywun i siarad ag ef; yn rhydd am eich bod chi'n gallu cael gwared â'r holl stwff rydych chi wedi'i gadw y tu mewn i chi; ac yn dawel am nad oes rhaid i chi boeni eto, mae'r pryder wedi'i godi oddi ar eich ysgwyddau."* – plentyn 12 mlwydd oed yn cael cymorth therapiwtig (Warrington et al, 2017)

Er mwyn ymateb yn gadarnhaol wrth ddelio â cham-drin plant yn rhywiol, mae angen i nifer o wahanol wasanaethau cymorth fod ar gael yn rhan o ddarpariaeth gyffredinol ac arbenigol y gwasanaethau statudol, a hefyd gan sefydliadau nid-er-elw sydd wedi'u hariannu neu eu comisiynu i wneud y gwaith hwn. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'r ymateb i bryderon am gam-drin plant yn rhywiol yn amrywio ledled Cymru a Lloegr. Yn y bennod hon, disgrifir y cymorth y mae gwasanaethau'n ei *ddarparu* ar hyn o bryd, y cymorth a ddylai fod ar gael ym mhob ardal, a phwysigrwydd gweithio amlasiantaethol wrth ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

Mae achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn fwyaf tebygol o gael eu canfod gan staff yn ysgol, meithrinfa neu goleg y plentyn, neu gan feddyg teulu neu nyrs. Os yw plentyn yn teimlo ei fod yn gallu dweud wrth rywun ei fod yn cael ei gam-drin, mae'n fwyaf tebygol y bydd yn dweud wrth un o'i deulu neu ffrindiau; efallai y bydd rhai'n siarad â gwasanaeth nid-er-elw fel ChildLine neu ganolfan Argyfwng Trais.[3] Fodd bynnag, fe all gymryd blynyddoedd i'r dioddefwr/goroeswr ddweud wrth rywun am y cam-drin y mae wedi'i brofi. Pan fydd yn gwneud hynny, gallai ddweud wrth staff mewn sefydliad arbenigol, wrth weithwyr proffesiynol rheng flaen yn yr heddlu neu wasanaethau iechyd, neu wrth wasanaethau eraill sy'n ymateb i ddigartrefedd, er enghraifft, neu gamddefnydd o sylweddau neu anawsterau iechyd meddwl.

Er mwyn gallu cynorthwyo dioddefwyr/goroeswyr yn effeithiol:

- rhaid i weithwyr proffesiynol rheng flaen mewn gwasanaethau cyffredinol fod â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i adnabod arwyddion a dangosyddion cam-drin plant yn rhywiol, a hefyd i ymateb yn briodol i ddefnyddwyr gwasanaethau a allai fod wedi'u cam-drin yn rhywiol neu wynebu'r risg o hynny

- rhaid cael cydweithio rhwng gwasanaethau yn y sectorau statudol a nid-er-elw, a dylid cynnwys sefydliadau nid-er-elw mewn partneriaethau amlasiantaethol fel Partneriaethau Diogelu Lleol.

3. Am wybodaeth fanwl am rôl ganolfannau Argyfwng Trais wrth gefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol, a'r dirwedd ariannu a chomisiynu gymhleth y maent yn gweithredu ynddi, gweler Rowson (2024).

## 7.1 Pa fathau o wasanaeth cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd?

Yn 2022 a 2023, cynhaliwyd y prosiect ymchwil Mae *Cymorth yn Cyfrif* gan y Ganolfan CPRh er mwyn ceisio cael gwell dealltwriaeth o'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth a'u hargaeledd i bobl sy'n profi effeithiau cam-drin plant yn rhywiol. Roeddem wedi canfod 468 o wasanaethau yng Nghymru a Lloegr sy'n darparu cymorth therapiwtig neu gymorth sy'n canolbwyntio ar lesiant, yn rhad ac am ddim, i blant a/neu oedolion sy'n ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, a/neu aelodau o'u teulu sydd heb fod â rhan yn y cam-drin.


Roedd y gwasanaethau hyn, pedwar o bob pump ohonynt yn y sector nid-er-elw, yn cynnig cymorth drwy ddulliau amrywiol a oedd yn arloesol mewn llawer achos.

Roedd mwy na hanner y gwasanaethau'n gweithredu mewn llai na 10 ardal awdurdod lleol o fewn un rhanbarth. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, roedd un ym mhob pump yn gweithredu ledled Cymru a/neu Loegr.

Roedd llai na chwarter y gwasanaethau'n darparu cymorth yn bennaf neu'n gyfan gwbl i grwpiau sydd â nodweddion penodol – gan amlaf i ferched/menywod neu bobl o gefndir ethnig leiafrifol. Roedd un ym mhob chwech yn darparu cymorth a oedd yn ymwneud yn benodol â chamfanteisio rhywiol ar blant, ond ychydig ohonynt a oedd yn canolbwyntio ar fathau eraill o gam-drin rhywiol ar blant.

Roedd gwasanaethau'n darparu pum prif fath o gymorth (gweler Ffigur 7), a dwy ran o dair ohonynt yn cynnig nifer o wahanol fathau. Y ddau fath o gymorth a oedd yn fwyaf cyffredin – a'r ddau'n cael eu cynnig gan fwyafrif y gwasanaethau – oedd therapi un-i-un, cwnsela neu gefnogaeth emosiynol ac eiriolaeth, gwaith achosion neu gymorth gan Gynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA) neu Gynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol Plant (ChISVA).

**Ffigur 7. Mathau o gymorth a gynigir i bobl sy'n pro i effaith cam-drin plant yn rhywiol**




n=468.

Er bod gwasanaethau wedi dweud eu bod yn ceisio bod yn hyblyg, roedd cymorth un-i-un a chymorth grŵp yn cael eu cynnig yn ystod oriau gwaith ar ddyddiau'r wythnos gan amlaf, yn bennaf o ganlyniad i gyfyngiadau ar gyllid – dim ond un ym mhob naw o'r ymyriadau therapiwtig un-i-un a oedd ar gael ar benwythnosau. Roedd hyn yn debygol o effeithio ar y mynediad at gymorth therapiwtig, yn enwedig yn achos dioddefwyr/goroeswyr sydd mewn addysg neu gyflogaeth amser llawn.

Roedd mwy na hanner y gwasanaethau sy'n cynorthwyo plant, a dwy ran o dair o'r rheini sy'n cynorthwyo oedolion, wedi amcangyfrif bod o leiaf 75% o'u defnyddwyr gwasanaethau yn 2021/22 yn fenywod a/neu yn ferched. Er bod hyn i'w ddisgwyl, o bosibl, o gofio bod y rhan fwyaf o ddioddefwyr/goroeswyr yn ferched neu fenywod, mewn gwirionedd mae chwarter y plant yng Nghymru a Lloegr sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn fechgyn neu ddynion (Karsna a Kelly, 2021) – er hynny, dywedodd y rhan fwyaf o wasanaethau fod llai nag un ym mhob pedwar o'u defnyddwyr gwasanaethau yn fechgyn neu ddynion.

I gael mwy o wybodaeth, gweler yr adroddiad ymchwil Mae Cymorth yn Cyfrif: Cyd-destun Gwasanaethau Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru a Lloegr. neu ***Support Matters: Briefing for Policymakers, Funders and Commissioners***.

## 7.2 Gweithio amlasiantaethol a dulliau partneriaeth

Wrth gynorthwyo plant a theuluoedd sy'n profi effaith cam-drin rhywiol, mae cydweithio da ar sail amlasiantaethol neu mewn partneriaeth yn hollbwysig i sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol priodol yn cymryd rhan a bod adnoddau'n cael eu dyrannu ar wahanol gamau ar eu siwrnai diogelu a gwella. Ceir ymarfer da pan fydd gweithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau, yn cynnwys sefydliadau arbenigol yn y sector nid-er-elw, yn rhannu cyfrifoldeb dros ddod o hyd i ffyrdd effeithiol o gydweithio, gan wneud penderfyniadau ar y cyd lle bo modd, a chwilio am wybodaeth a'i darparu. Mae dulliau amlasiantaethol o fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yn galluogi sefydliadau i gyflawni eu rôl benodol gan ddatblygu persbectifau a dulliau gweithredu a rennir hefyd i amddiffyn plant a phobl ifanc.

Felly, wrth ddatblygu neu gryfhau gwaith amlasiantaethol a gwaith mewn partneriaethau lleol, bydd yn hollbwysig cynnwys sefydliadau gofal cymdeithasol, iechyd a chyfiawnder troseddol a sefydliadau arbenigol y sector nid-er-elw er mwyn sicrhau llwyddiant. Er enghraifft, mae Child House yn ddull gwasanaeth amlasiantaethol, wedi'i seilio ar fodel Barnahus, sy'n cynorthwyo plant a theuluoedd yn dilyn cam-drin plant yn rhywiol (Bethel, 2022). Rhai o'r manteision o weithio mewn partneriaeth drwy'r dull hwn yw:

- rhannu arbenigedd
- pennu disgwyliadau a dulliau gweithredu a rennir
- hwyluso ffyrdd i rannu gwybodaeth er mwyn diogelu
- rhannu adnoddau
- rhannu cudd-wybodaeth er mwyn ymyrryd â cham-drin a'i atal.

Mae'n hollbwysig deall beth yw ymarfer da a sut i gyrraedd gwasanaethau cymorth perthnasol pan fo pryderon bod plentyn yn wynebu'r risg o gael ei gam-drin yn rhywiol neu ei fod wedi'i gam-drin yn rhywiol.

Mae **Llwybr Ymateb Cam-drin Plant yn Rhywiol** y Ganolfan CPRh yn dangos y cyfrifoldebau sydd gan weithwyr proffesiynol a'r camau gweithredu i'w cymryd ganddynt ar bwyntiau allweddol, er mwyn cwrdd ag anghenion plant am ddiogelwch a chefnogaeth ac er mwyn rhoi sylw i'w llesiant yn gyffredinol. Er ei fod wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer y gweithwyr proffesiynol hynny, bydd hefyd yn gallu'ch helpu chi i gael gwell dealltwriaeth o'r rolau sydd gan wahanol asiantaethau mewn gweithgareddau i ddiogelu a chynorthwyo plant, a gall fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth wneud asesiad anghenion ar y cyd (gweler Pennod 8).

### Gofal iechyd

Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn gwahanol leoliadau yn chwarae rhan hollbwysig yn yr ymateb amlasiantaethol i achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Ochr yn ochr â chymorth ymarferol a chefnogaeth emosiynol, mae archwiliadau meddygol a sgrinio a thriniaeth ar gyfer iechyd rhywiol yn gallu dod â nifer o fuddion: yn ogystal â gwneud canfyddiadau fforensig a thystiolaethol, maent yn rhoi asesiad cyfannol o iechyd a llesiant y plentyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad drwy archwiliadau meddygol yn unig y bydd plant a gafodd eu cam-drin yn rhywiol yn gallu cael at gymorth.

Rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gael y wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen i roi gwybodaeth a chyngor i blant a theuluoedd o'r adeg y bydd pryder yn codi; bydd hyn yn helpu i leihau'r risg o achosi ail drawma ac yn helpu i atgyfeirio ac ymateb mewn ffordd briodol.

Mae hefyd yn bwysig bod gwahanol wasanaethau iechyd yn datblygu perthnasoedd ac yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd, fel bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth os ydynt yn pryderu bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol. Os ydych chi'n gyfrifol am gomisiynu'r gwasanaethau hyn, ystyriwch beth allwch ei wneud i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae'r Ganolfan CPRh wedi cynhyrchu **fideo** i helpu gweithwyr proffesiynol ym mhob sector i ddeall beth mae archwiliad meddygol yn ei gynnwys a pham mae'n bwysig, yn ogystal ag adroddiad ymchwil sy'n amlinellu'r dystiolaeth sy'n dangos gwerth archwiliadau meddygol.

## 7.3 Yr elfennau allweddol mewn cymorth effeithiol

> *"Mae anghenion cymorth yn amrywio'n fawr a gallant newid dros amser, ar wahanol adegau ym mywyd dioddefwr, weithiau mewn ffyrdd annisgwyl."* (Jay et al, 2022).

Er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol (yn cynnwys y cannoedd o filoedd o blant ac oedolion nad ydynt yn cael unrhyw ymateb ar hyn o bryd), rhaid i'r cymorth sydd ar gael fod yn ***ddigonol***, ***priodol*** a ***hygyrch***.

Drwy ein hymchwil ar gyfer *Mae Cymorth yn Cyfrif* i effeithiolrwydd gwasanaethau (gweler isod) a'n gwaith yn datblygu'r Llwybr Ymateb Cam-drin Plant yn Rhywiol, mae'r Ganolfan CPRh wedi canfod bod angen y mathau penodol o gymorth a ganlyn – yn ogystal ag ymatebion cyffredinol ar gyfer diogelu a/neu wasanaethau amddiffyn plant a lles oedolion – ledled Cymru a Lloegr er mwyn sicrhau bod anghenion dioddefwyr/goroeswyr a'u teuluoedd yn cael eu diwallu.

- **Cymorth ar y pryd** – rhywun i siarad ag ef drwy linell gymorth neu apwyntiad brys.
- **Cymorth ymarferol a chefnogaeth emosiynol** – cymorth un-i-un lle darperir gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth gyffredinol.
- **Cymorth dwys i reoli argyfwng** – cymorth un-i-un gan weithiwr proffesiynol sy'n deall trawma.
- **Asesu meddygol** – archwiliad gan weithiwr iechyd proffesiynol arbenigol.
- **Cymorth teilwredig arbenigol** – cymorth gan Gynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA) neu Gynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol Plant (ChISVA), pa un a fydd y dioddefwr/goroeswr yn mynd drwy achos cyfreithiol neu beidio.
- **Cymorth i reoli symptomau trawma** – cymorth un-i-un neu gymorth ar sail grŵp sy'n darparu addysg/sefydlogi seicolegol.
- **Cymorth i ddelio â thrawma** – gellid ei ddarparu drwy therapi un-i-un, cwnsela neu therapi i'r teulu cyfan.
- **Cefnogaeth gan gymheiriaid** i ddioddefwyr/goroeswyr a'u rhieni – cyfleoedd i ddod ynghyd ag eraill a gafodd brofiadau tebyg er mwyn cefnogi ei gilydd.

Mae angen i blant gael y cymorth hwn pa un a yw ymchwiliad gan yr heddlu neu erlyniad yn digwydd neu beidio; os bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen ag achos, *ni ddylid* cymryd bod hynny'n golygu nad yw'r cam-drin wedi digwydd.

Hefyd, mae'n bwysig bod darparwyr y cymorth hwn yn cymryd cefndiroedd a nodweddion y plant i ystyriaeth, gan gydnabod bod rhai plant yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth gael mynediad at wasanaethau. Er enghraifft:

- Byddai plant lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, neu blant sy'n cwestiynu eu hunaniaeth rhywedd, yn gallu teimlo'n ynysig ac yn amharod i siarad am gam-drin plant yn rhywiol neu ei gydnabod, gan ofni cael ymateb gelyniaethus.
- Nid oes cynrychiolaeth ddigonol o blant o gefndiroedd ethnig leiafrifol mewn gwasanaethau, o ganlyniad i rwystrau sy'n gysylltiedig â hiliaeth, iaith, anrhydedd y teulu a'r gymuned, a normau crefyddol a diwylliannol.
- Mae nifer fawr mawr o blant anabl yn cael eu gwarchod yn ormodol a heb gael gwybodaeth am ryw a pherthnasoedd, felly ni fyddant yn gweld mai cam-drin yw'r profiadau y maent yn eu cael. Hefyd, byddai gweithwyr proffesiynol yn gallu tybio bod dangosyddion ymddygiadol o gam-drin rhywiol yn ganlyniad i anabledd y plentyn.

- Mae agweddau a chredoau cymdeithas am ryw a rhywedd yn gallu golygu bod rhwystrau sy'n atal plant rhag dweud wrth bobl eraill am eu profiadau o gam-drin. Er enghraifft, prin yw'r gydnabyddiaeth bod bechgyn yn gallu cael eu cam-drin yn rhywiol neu fod merched yn gallu cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol – a rhaid cofio bob amser am yr effaith o gredoau am anrhydedd y teulu neu'r gymuned ar ferched sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol.

Mae hefyd yn bwysig cynnwys y rhieni wrth ddarparu cymorth i blant a gafodd eu cam-drin yn rhywiol, ar yr amod nad ydynt wedi bod â rhan yn y cam-drin. Mae rhieni'n chwarae rhan ganolog wrth greu amgylchedd amddiffynnol sy'n addas i anghenion eu plentyn a'r cam yn ei ddatblygiad; os byddant yn cael cymorth i wneud hyn, byddant yn fwy tebygol o allu rheoli eu teimladau eu hunain a darparu'r cymorth sydd ei angen ar y plentyn.

Mewn sefyllfaoedd lle ceir ymddygiad rhywiol niweidiol, mae'n bwysig bod y cymorth yn cael ei ddarparu i'r plentyn sydd wedi cael niwed a hefyd i'r plentyn sydd wedi peri'r niwed, yn ogystal ag eraill yn eu teulu(oedd).

Mewn ymchwil yn 2018 a gomisiynwyd gan y Ganolfan CPRh, nodwyd bod yr elfennau canlynol yn allweddol wrth ddarparu cymorth effeithiol i blant a gafodd eu cam-drin yn rhywiol:

- *Perthynas ymddiriedus gyda staff.*
- *Cysondeb o ran staff.*
- Ethos o rymuso – creu cyfleoedd i arfer dewis a rheolaeth.
- Para dros gyfnodau hwy.
- *Hyblygrwydd – o ran amlder a lefel y cyswllt, gan ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau, ac yn cynnwys cael hwyl.*
- *Credu'ch geiriau ac ymddiried ynoch.*
- Trafod y cam-drin yn uniongyrchol.
- Cefnogaeth gan gymheiriaid.
- Cymorth i rieni.
- Mannau sy'n teimlo'n ddiogel a lle mae plant, pobl ifanc ac oedolion yn teimlo eu bod yn cael croeso.
- Staff gwybodus a medrus sy'n cael cefnogaeth dda.
- Dulliau o weithredu wedi'u seilio ar ddealltwriaeth o rym, anghydraddoldeb a thrawma.
- Y gallu i leihau rhestrau aros.

(Yr elfennau mewn llythrennau italig yw'r rheini a bwysleisiwyd gan y plant a gymerodd ran yn yr ymchwil.)

I gael mwy o wybodaeth, gweler ein hadroddiad ymchwil ***Effectiveness of Services for Sexually Abused Children and Young People, Report 1: A Knowledge Review***

# Rhan C: Penderfynu pwy a beth i'w ariannu/ comisiynu

Mae'r Ganolfan CPRh wedi datblygu nifer o wahanol offer ac adnoddau rhyngweithiol i'ch helpu i asesu'r angen lleol am gymorth ynghylch cam-drin plant yn rhywiol, i ganfod pa mor dda y mae'r angen hwnnw'n cael ei ddiwallu ar hyn o bryd, ac i gynnwys darparwyr gwasanaethau a dioddefwyr/goroeswyr wrth benderfynu pa fath o gymorth y dylid ei ddarparu yn y dyfodol. Mae'r penodau sy'n dilyn yn egluro sut i wneud hyn.

# 8. Canllawiau llywodraeth

Mae Llywodraeth y DU wedi cynhyrchu amryw o ganllawiau statudol a dogfennau eraill i helpu comisiynwyr gwasanaethau i ddeall eu cyfrifoldebau ac arferion da o ran comisiynu. Yn y bennod hon, ceir crynodeb o rywfaint o'r cynnwys allweddol sydd yn y cyhoeddiadau hynny, a thynnir sylw at weithgareddau y bydd adnoddau'r Ganolfan CPRh yn gallu'ch helpu i'w cyflawni.

8.

## 8.1 Fframwaith Comisiynu ar gyfer Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol

Yn y ***Fframwaith Comisiynu ar gyfer Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol*** a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn 2019, nodir pum egwyddor comisiynu ar gyfer penderfynu:

- Comisiynu gwasanaethau yn ôl yr angen.
- Deall yr amgylchedd comisiynu lleol.
- Canolbwyntio ar y dioddefwr wrth ddarparu gwasanaethau.
- Dylai gwasanaethau gael eu harwain yn lleol a dylent gynnwys gweithio amlasiantaethol.
- Asesu gwerth gwasanaethau drwy fesur canlyniadau yn hytrach na gweithgarwch.

Ar sail yr egwyddorion hyn, mae'r canllawiau ar "gynnal asesiad effeithiol a chynhwysfawr o anghenion" yn nodi pedwar gweithgarwch hanfodol:

**1. Casglu'r ffynonellau gwybodaeth presennol**

Mae Rhan A o'r canllaw hwn, sy'n crynhoi data am raddau a natur cam-drin plant yn rhywiol ledled Cymru a Lloegr, yn cynnwys gwybodaeth sy'n ddefnyddiol ar gyfer hyn.

Hefyd gallwch ddefnyddio ein **Hyb Mewnwelediadau Data** i gael ffigurau am gyffredinrwydd y cam-drin *yn eich ardal leol*, a chyferbynnu hyn â nifer y gwasanaethau cymorth sydd ar gael – gweler Pennod 9.

Yn ogystal â hyn, mae'r fframwaith yn nodi pa mor bwysig yw casglu gwybodaeth am lwythi achosion a rhestrau aros y gwasanaethau cymorth lleol sydd ar gael. Bydd ein **Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth** yn eich galluogi i gael gwybod am y gwasanaethau hyn a chysylltu â nhw – gweler Pennod 10.

**2. Mapio'r gwasanaethau presennol ar sail yr angen**

Unwaith eto, bydd ein **Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth** yn anhepgor os ydych am gael gwybod am y mathau o gymorth sydd ar gael yn barod – yn y sectorau statudol, nid-er-elw a phreifat – yn eich ardal, a'r adnoddau sydd gan y gwasanaethau sy'n eu darparu.

Ac mae ein **matrics cymorth cam-drin plant yn rhywiol** yn dempled lle gallwch gofnodi gwybodaeth am y cymorth hwnnw mewn ffordd rwydd a syml a fydd yn eich helpu i ystyried yr holl fathau o anghenion lleol ac i nodi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol – gweler Pennod 11.

**3. Cynnwys dioddefwyr a goroeswyr a darparwyr gwasanaethau yn y broses**

Os ydych am eu holi am eu pryderon, eu cynlluniau a'u huchelgeisiau, neu am ofyn iddynt wahodd eu defnyddwyr gwasanaethau i gymryd rhan mewn grŵp cynghorol o ddioddefwyr/goroeswyr os byddwch yn sefydlu grŵp o'r fath, bydd ein **Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth** yn ei gwneud yn hawdd i chi gysylltu â'r holl wasanaethau cymorth cam-drin plant yn rhywiol yn eich ardal.

**4. Dadansoddi a dehongli**

Bydd ein **matrics cymorth cam-drin plant yn rhywiol** o gymorth ar gyfer hyn hefyd, gan ei fod yn ei gwneud yn haws i chi ganfod bylchau a phennu meysydd blaenoriaethol.

Mae'r Fframwaith Comisiynu hefyd yn cynnwys cyngor defnyddiol ar gydweithio ac ar bennu a mesur canlyniadau, ac atodiad yn crynhoi'r cyrff sydd â chyfrifoldeb dros gomisiynu gwahanol fathau o wasanaeth cymorth.

## 8.2 Y ddyletswydd i gydweithio

Mae **Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024** yn ei gwneud yn ofynnol bod 'awdurdodau perthnasol' (y corff heddlu lleol, yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Gofal Integredig) yn Lloegr yn cydweithio ar gomisiynu gwasanaethau cymorth cymunedol lleol i ddioddefwyr cam-drin domestig, cam-drin rhywiol a thrais difrifol, mewn ffordd sy'n dileu rhwystrau ac yn sicrhau siwrnai fwy cyfannol i'r dioddefwyr hynny.

Yn 2024, cyhoeddwyd **canllawiau drafft** gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y ddyletswydd i gydweithio sy'n amlinellu gofynion i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth comisiynu ar y cyd ac i gynnal asesiad anghenion ar y cyd, fel y bydd anghenion plant ac eraill yn cael eu cydnabod a'u hystyried.

Mae'r **Canllawiau Comisiynu Gwasanaethau Dioddefwyr**, a gyhoeddwyd hefyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2024, yn nodi y gall 'dull system gyfan' o gydweithio a chyd-gomisiynu gwasanaethau "helpu i ddarparu taith gyfannol trwy wasanaeth (neu wasanaethau)" i ddioddefwyr troseddau, fel nad oes angen iddynt ddisgrifio eu profiadau dro ar ôl tro i ddarparwyr gwasanaethau gwahanol. Mae'r canllawiau'n mynd ymlaen i bwysleisio pwysigrwydd dull 'plentyn yn gyntaf' o gomisiynu, sy'n golygu "rhoi plant wrth wraidd darpariaeth gwasanaethau, sicrhau yr ymgynghorir â nhw wrth ddylunio a chomisiynu gwasanaethau, a chydnabod yr anghenion penodol sydd gan blant a phobl ifanc".

## 8.3 Canllawiau eraill i gomisiynwyr gwasanaethau

Mae’r canllaw hwn wedi’i fwriadu hefyd i ategu’r canllawiau a fframweithiau canlynol:

| Canllawiau/Fframwaith | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod a Mrched: Pecyn Cymorth Comisiynu** (Y Swyddfa Gartref, 2022) | Cyngor ar ffyrdd effeithiol i gomisiynu gwasanaethau i fynd i’r afael â thrais yn erbyn menywod a merched yng Nghymru a Lloegr. |
| **Canllawiau Comisiynu Gwasanaethau Dioddefwyr** (Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2024) | Canllawiau i gomisiynwyr gwasanaethau cymorth lleol yn benodol ar gyfer dioddefwyr troseddau. |
| **Canllawiau Statudol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru** (Llywodraeth Cymru, 2019) | Fframwaith ar gyfer comisiynu gwasanaethau i fynd i’r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel y bydd anghenion yn cael eu diwallu’n deg ac effeithiol ledled Cymru. |
| **Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Plant** (Yr Adran Addysg, 2023) | Statutory guidance setting out key roles for individual organisations and agencies to deliver effective help, support, safeguarding and protection arrangements. Canllawiau statudol sy’n pennu rolau allweddol ar gyfer sefydliadau ac asiantaethau penodol er mwyn darparu trefniadau effeithiol ar gyfer help, cymorth, diogelu ac amddiffyn. |
| **Manyleb Gwasanaeth Genedlaethol ar gyfer Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol** (NHS England, 2023) | Crynodeb ar gyfer comisiynwyr a darparwyr Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol o’r gwasanaethau allweddol y mae’n ofynnol i NHS England eu cefnogi ar draws y llwybr gofal. |

9.

# 9. Deall yr angen yn eich ardal leol: yr Hyb Mewnwelediadau Data

Wrth gynllunio ar gyfer comisiynu gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol, mae'n hollbwysig cynnal asesiad o anghenion – mae hynny'n galw am gasglu gwybodaeth am gyffredinrwydd y cam-drin hwnnw, a'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau i ymateb iddo, yn eich ardal leol. Mae Hyb Mewnwelediadau Data y Ganolfan CPRh yn eich galluogi i wneud y ddau beth hyn, fel y mae'r bennod hon yn egluro.


Mae'r **Hyb Mewnwelediadau Data** yn ddangosfwrdd ar-lein sydd ar gael i'w ddefnyddio'n rhad ac am ddim lle gallwch weld data ar unwaith am gam-drin plant yn rhywiol mewn unrhyw ardal awdurdod lleol neu ardal heddlu yng Nghymru a Lloegr.


Mae'n defnyddio mapiau a siartiau rhyngweithiol i ddangos, ar lefel leol a chenedlaethol:


- data blynyddol o wasanaethau plant awdurdodau lleol am ba mor aml y mae cam-drin rhywiol wedi'i ddynodi'n bryder yn eu hasesiadau o blant, ac wedi'i gofnodi'n brif reswm dros ddarparu cynllun amddiffyn plentyn ar gyfer plentyn neu, yng Nghymru, dros roi'r plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant.
- data blynyddol am nifer y troseddau cam-drin plant yn rhywiol a gofnodwyd gan heddluoedd.

Ym mhob achos, gallwch gymharu un awdurdod lleol neu un heddlu â rhai eraill, a gallwch dracio newidiadau yn ei ddata dros y blynyddoedd diwethaf.

Dylid nodi, os oes cyfraddau isel o ddynodi/cofnodi, y gall hynny awgrymu y byddai **gweithwyr proffesiynol yn yr ardal leol yn elwa o gael hyfforddiant mwy penodol neu o roi sylw mwy penodol i adnabod ac ymateb i blant sy'n wynebu'r risg o gael eu cam-drin yn rhywiol neu'n cael eu cam-drin yn rhywiol**. *Ni ddylid ei gymryd* yn arwydd nad yw cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd yn yr ardal leol.






Ar gyfer yr ardal leol rydych yn ei dewis, mae'r Hyb Mewnwelediadau Data hefyd yn rhoi'r gallu i chi wneud y canlynol:

- cynhyrchu graffigyn 'rhewfryn' yn dangos y prif ddata o'r gwasanaethau plant a'r heddlu a'u cyferbynnu â'r amcangyfrif blynyddol o nifer y plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn yr ardal[4]
- gweld nifer y gwasanaethau sy'n cynorthwyo plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol (neu sy'n wynebu'r risg o gael eu cam-drin yn rhywiol) a'u teuluoedd.[5]

(Sylwer bod yr Hyb Mewnwelediadau Data yn dangos *nifer* y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol yn unig, nid eu maint/capasiti na nodweddion eraill – felly ni ddylid cymryd bod y ffigur hwn yn dangos maint neu argaeledd y cymorth a gynigir gan y gwasanaethau hyn.)

---

4. Mae'r amcangyfrif hwn wedi'i seilio ar ganfyddiadau o **arolwg camdriniaeth plant NSPCC**, wedi'u cymhwyso at **amcangyfrif canol blwyddyn 2022** y Swyddfa Ystadegau Gwladol o nifer y plant dan 18 oed sy'n byw ym mhob ardal yng Nghymru a Lloegr.
5. Cafwyd y ffigur hwn o'n Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth (gweler Pennod 10); hwn yw nifer y gwasanaethau, heb gynnwys gwasanaethau cenedlaethol, sy'n cynnig cymorth i blant a/neu eu teuluoedd. Hefyd, nid yw'n cynnwys gwasanaethau i ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol sydd ar gael i oedolion yn unig.




Os ydych am gael dealltwriaeth o’r gwahanol fathau o wasanaeth cymorth sydd ar gael yn rhanbarthau Cymru a Lloegr, gweler y gyfres o fapiau sydd ym Mhennod 6 o’n hadroddiad ymchwil ***Mae Cymorth yn Cyfrif: Cyd-destun Gwasanaethau Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru a Lloegr.***

# 10. Deall y ddarpariaeth leol: y Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth

10.

Os ydych am gael gwybod am natur eu gwasanaethau, eu holi am eu llwythi achosion a'u rhestrau aros, eu gwahodd nhw a'u defnyddwyr gwasanaethau i gyfrannu i'ch penderfyniadau ar ariannu/comisiynu, neu ganfod bylchau yn y ddarpariaeth leol o wasanaethau, bydd angen i chi gael gwybod am y gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol sydd ar gael yn eich ardal leol a sut i gysylltu â nhw. Mae'r bennod hon yn disgrifio sut y gallwch wneud hynny drwy ddefnyddio **Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth**. y Ganolfan CPRh.


Mae'r cyfeiriadur yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd gyntaf ar ddechrau ein hymchwil ar gyfer *Mae Cymorth yn Cyfrif*, ac sydd wedi'i diweddaru'n rheolaidd ers hynny. Mae'r cyfeiriadur yn cynnig ffordd hwylus i chwilio drwy 450 a rhagor o wasanaethau ledled Cymru a Lloegr sy'n darparu cymorth i blant a theuluoedd sydd wedi profi'r effaith o gam-drin plant yn rhywiol.

Yn ogystal â bod yn ddefnyddiol i chi, mae'r cyfeiriadur yn adnodd amhrisiadwy hefyd, wrth gwrs, i bobl sydd ag angen cael cymorth gan y gwasanaethau hyn, ac i unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n ceisio dod o hyd i gymorth i'w argymell i'r plant ac oedolion y mae'n gweithio gyda nhw. Gellir ei ddefnyddio'n gwbl gyfrinachol; nid oes angen cofrestru, ac ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei chadw pan fydd y defnyddiwr yn chwilio ynddo.

## 10.1 Chwilio'r cyfeiriadur

Drwy deipio cod post neu enw tref neu ddinas, gallwch weld enwau llawn, cyfeiriadau gwefan a manylion cyswllt y gwasanaethau yn yr ardal, ynghyd â gwybodaeth allweddol am bob un ohonynt. Gallwch hidlo canlyniadau'r chwilio hefyd os ydych am gael gwybod am fathau penodol o wasanaeth cymorth, er enghraifft:

- gwasanaethau sy'n cynorthwyo plant, oedolion a/neu deuluoedd
- gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddarparu cymorth i grwpiau penodol ar sail eu rhyw, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd.



## 10.2 Pa wasanaethau sydd wedi'u cynnwys?

Mae'r cyfeiriadur yn cynnwys yr holl wasanaethau rydym yn gwybod amdanynt yng Nghymru a Lloegr sy'n cynorthwyo dioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, plant y credir eu bod yn wynebu'r risg o gael eu cam-drin yn rhywiol a/neu eu teuluoedd, ar yr amod bod y gwasanaethau hynny'n cwrdd â'r meini prawf canlynol.

- Eu bod yn canolbwyntio ar waith therapiwtig neu lesiant – er enghraifft, drwy ddarparu cymorth fel therapi a chwnsela, gwaith seico-addysgol, cymorth drwy eiriolaeth (er enghraifft, gan Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol Plant), cefnogaeth gan gymheiriaid, llinellau cymorth neu wasanaethau sgwrsio ar-lein, gofal preswyl i ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, gwaith/ymyriadau gyda theuluoedd, a/neu gymorth yn ystod y broses gyfreithiol. Gellir darparu cymorth wyneb yn wyneb, ar-lein neu dros y ffôn; gellir ei ddarparu ar sail un-i-un neu fel ymyriad ar sail grŵp; a gall fod yn gymorth tymor byr neu dymor hir. Gall y gwasanaethau fod yn y sectorau statudol, nid-er-elw neu breifat, neu gael eu darparu'n rhan o fentrau gan gonsortia neu amryfal asiantaethau.

- Bod y cymorth uchod yn cael ei ddarparu'n rhad ac am ddim i bobl sy'n byw yng Nghymru neu Loegr (yn cynnwys gwasanaethau a all godi tâl ar asiantaethau atgyfeirio am y cymorth hwn).

Os yw'r meini prawf hynny wedi'u bodloni, yna bydd gwasanaethau wedi'u cynnwys beth bynnag fo'u cylch gwaith cyffredinol: mae rhai ohonynt yn canolbwyntio'n llwyr ar gam-drin plant yn rhywiol, rhai'n gweithio yn y sector trais rhywiol ehangach (e.e. canolfannau Argyfwng Trais), ac eraill yn cyflawni gwaith mwy cyffredinol (e.e. gwasanaethau i gynorthwyo plant sydd wedi'u masnachu neu wedi profi camfanteisio, lle cynigir gwasanaeth penodol mewn perthynas â chamfanteisio rhywiol ar blant).

Nid yw gwasanaethau diogelu statudol wedi'u cynnwys, na gwasanaethau sydd:

- yn canolbwyntio ar atal cam-drin plant yn rhywiol (e.e. rhaglenni addysgol/hybu ymwybyddiaeth, rhaglenni allgymorth, ymgyrchoedd neu wasanaethau sy'n canolbwyntio ar ymyrryd)

- yn codi tâl ar ddefnyddwyr gwasanaethau am y cymorth a ddarparwyd

- yn darparu asesiadau meddygol yn unig heb unrhyw gymorth therapiwtig/llesiant ychwanegol

- yn canolbwyntio'n llwyr ar fathau eraill o gam-drin fel anffurfio organau cenhedlu benywod

- yn helpu plant gyda materion sy'n effeithio ar eu llesiant neu ddiogelwch, ond heb ddarparu cymorth penodol mewn perthynas â cham-drin rhywiol – rhai enghreifftiau o sefydliadau o'r fath yw Mind a'r Samariaid.

Bydd y data yn y cyfeiriadur yn cael eu diweddaru'n flynyddol, neu pan fydd gwasanaethau'n rhoi gwybod i ni am newidiadau.

# 11. Mapio’r ddarpariaeth o wasanaethau ar sail angen: y matrics cymorth cam-drin plant yn rhywiol

11.

Er bod ein Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth yn gallu ei gwneud yn haws i chi gael gwybod am y ddarpariaeth leol o wasanaethau cam-drin plant yn rhywiol, mae’n bwysig ystyried pa fath o wybodaeth y dylech ei chasglu – a sut y gallwch gofnodi’r wybodaeth honno mewn ffordd a fydd yn symleiddio’r broses o ddadansoddi (er enghraifft, drwy nodi bylchau yn y ddarpariaeth) a phenderfynu. Mae’r bennod hon yn ceisio’ch helpu i wneud y ddau beth hyn, fel y gallwch ariannu neu gomisiynu gwasanaethau sy’n cwrdd ag anghenion yn y ffordd fwyaf effeithiol.

## 11.1 Pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch?

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, dylech geisio ateb y cwestiynau canlynol drwy’ch ymarfer mapio. Bydd ein Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth (gweler Pennod 10) yn eich helpu i gysylltu â darparwyr gwasanaethau a chael gwybodaeth a dysgu am eu persbectifau.

**1. Pa wasanaethau cymorth cam-drin rhywiol sydd ar gael yn eich ardal i’r grwpiau hyn?**

- Plant (o bob oed) sydd wedi’u cam-drin yn rhywiol.
- Oedolion sy’n ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol.
- Rhieni ac aelodau eraill o’r teulu i blant sydd wedi’u cam-drin yn rhywiol.
- Plant sydd wedi cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol, neu sydd mewn perygl o wneud hynny, a’u teuluoedd.
- Oedolion sydd wedi cam-drin plant yn rhywiol, neu sydd mewn perygl o wneud hynny, a’u teuluoedd.

**2. Pa *fathau* o gymorth sydd ar gael yn eich ardal? Pwy sy’n gallu cael mynediad at y cymorth hwn, a pha bryd?**

Rhai enghreifftiau yw cymorth ar y pryd, cefnogaeth emosiynol a chymorth ymarferol, cymorth rheoli dwys mewn argyfwng, asesiadau a thriniaethau meddygol, cymorth teilwredig arbenigol i ymdrin â thrawma, a chefnogaeth gan gymheiriaid.

**3. Pa mor hawdd yw hi i bobl yn eich ardal leol gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt?**

- Sut mae dioddefwyr/goroeswyr, eu teuluoedd a phobl sy’n peri risg o gyflawni cam-drin plant yn rhywiol yn gallu cael gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael, neu gael eu hatgyfeirio iddynt?
- A oes grwpiau penodol sy’n llai tebygol o gael gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael, neu gael eu hatgyfeirio iddynt?
- Os oes, beth yw’r rhwystrau sy’n atal pobl rhag cael gwybod am y gwasanaethau hynny, neu gael eu hatgyfeirio iddynt?
- A yw oriau agor y gwasanaethau’n addas i bawb, gyda darpariaeth yn yr hwyr ac ar benwythnosau?

**4. Pa nifer o bobl sydd ar restrau aros am gymorth, a pha mor hir maent yn aros?**

**5. A oes cymorth penodol ar gael yn eich ardal ar gyfer gwahanol fathau o gam-drin plant yn rhywiol?**

Yn bennaf, a oes cymorth penodol mewn perthynas â cham-drin yn amgylchedd y teulu, cam-drin mewn cyd-destunau ar-lein, cam-drin mewn cyd-destunau sefydliadol, ymddygiad rhywiol niweidiol neu gamfanteisio rhywiol ar blant?

**6. A yw'r cymorth sydd ar gael yn eich ardal yn cwrdd ag anghenion penodol y grwpiau canlynol?**

- Pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol (yn cynnwys Sipsiwn, Teithwyr a phobl o Ddwyrain Ewrop), ac yn enwedig y rheini sydd heb y Saesneg yn iaith gyntaf.
- Pobl ag anabledd corfforol.
- Pobl ag anawsterau/anableddau dysgu.
- Merched/menywod a bechgyn/dynion.
- Pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.
- Pobl sy'n cwestiynu eu hunaniaeth rhywedd, neu sydd â hunaniaeth drawsryweddol.

**7. A yw'r cymorth sydd ar gael yn eich ardal yn cyfateb i'r anghenion amdano?**

Ydych chi wedi cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniadau? Bydd ein Hyb Mewnwelediadau Data (gweler Pennod 9) o gymorth..

**8. Pa mor ddiogel yw sefyllfa ariannol y darparwyr gwasanaethau yn eich ardal?**

**9. Pa gymorth sydd ei angen ar y darparwyr gwasanaethau yn eich ardal gan y rheini sy'n ariannu a chomisiynu eu gwasanaethau?**

**10. Pwy arall sy'n cyfrannu at ariannu/comisiynu gwasanaethau yn eich ardal?**

Drwy ateb y cwestiynau hyn – a chwestiwn 7 yn enwedig – bydd hynny o gymorth i chi gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus gan fod hynny'n eich galluogi i ddod i benderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas â gwasanaethau sydd ar gael ac sydd yn hygyrch i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig..

## 11.2 Offeryn i archwilio'r ddarpariaeth leol ar sail poblogaethau penodol

Er mwyn eich helpu i fapio'r ddarpariaeth leol o wasanaethau, rydym wedi datblygu'r matrics cymorth cam-drin plant yn rhywiol – offeryn archwilio sy'n dangos y gwahanol fathau o gymorth a'r gwahanol boblogaethau sydd ag angen y mathau hynny o gymorth.

Mae copi o'r matrics ar y dudalen nesaf, ond **gallwch lawrlwytho fersiwn Microsoft Word hefyd** er mwyn ei chadw, ei llenwi a'i rhannu â chyrff comisiynu eraill yn eich rhwydwaith cydweithredol.

| | Cymorth ar y pryd | Cymorth ymarferol a chefnogaeth emosiynol | Cymorth rheoli dwys mewn argyfwng | Asesiadau a thriniaethau meddygol | Cymorth teilwredig arbenigol | Cymorth i reoli symptomau trawma | Cymorth i ymdrin â thrawma | Cefnogaeth gan gymheiriaid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol** | | | | | | | | |
| Plant (0–4 oed) | | | | | | | | |
| Plant (5–10 oed) | | | | | | | | |
| Plant (11–12 oed) | | | | | | | | |
| Plant (13–17 oed) | | | | | | | | |
| Oedolion ifanc (18–25 oed) | | | | | | | | |
| Oedolion hŷn | | | | | | | | |
| **Rhieni ac aelodau eraill o'r teulu i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol sydd heb ran yn y cam-drin** | | | | | | | | |
| Teulu plant dan 13 oed | | | | | | | | |
| Teulu plant 13+ oed | | | | | | | | |
| **Plant sydd wedi dangos ymddygiad rhywiol niweidiol** | | | | | | | | |
| Plant | | | | | | | | |
| Eu rhieni | | | | | | | | |
| Eu brodyr neu chwiorydd | | | | | | | | |
| **Oedolion sydd wedi cam-drin plant yn rhywiol, neu sy'n peri risg rywiol i blant, a'u teuluoedd** | | | | | | | | |
| Oedolion sy'n peri risg rywiol i blant | | | | | | | | |
| Teuluoedd i oedolion sydd wedi cam-drin y tu allan i'r teulu | | | | | | | | |

# Rhan D: Cynorthwyo darparwyr gwasanaethau

Mae nifer mawr o ddarparwyr gwasanaethau yn gweithredu mewn amgylchiadau heriol – ac mae’r pwysau i sicrhau cyllid a chwrdd â gofynion cyllidwyr a chomisiynwyr yn gallu cynyddu’r her honno. Pan fydd darparwyr yn teimlo bod pobl yn gefn iddynt, gall hynny gael effaith gadarnhaol iawn arnyn nhw.

Yn y penodau sy’n dilyn, sydd wedi’u seilio ar ganfyddiadau o’n harolwg cynhwysfawr o ddarparwyr gwasanaethau ledled Cymru a Lloegr yn 2022/23, rydym yn dangos sut mae’r adnoddau sydd ar gael gan y Ganolfan CPRh yn gallu’ch helpu i’w helpu nhw i ddarparu eu gwasanaethau’n effeithiol ac yn gynaliadwy.

Bydd hyn yn gwella’ch dealltwriaeth hefyd o sefyllfa’r darparwyr rydych yn eu hariannu/comisiynu, a’r gwaith y maent yn ei gyflawni, a’ch helpu i feithrin gwell cysylltiadau a sicrhau gwell canlyniadau yn y pen draw i’r bobl sy’n profi effaith cam-drin plant yn rhywiol.

# 12. Beth sydd ar ddarparwyr gwasanaethau ei eisiau a'i angen gan y rheini sy'n eu hariannu/ comisiynu?

12.


Y cam cyntaf i'w gymryd wrth gynorthwyo darparwyr gwasanaethau yw dod i ddeall yr anawsterau y maent yn eu hwynebu. Mae'r bennod hon yn dangos adborth o'n hymchwil ar gyfer *Mae Cymorth yn Cyfrif*, ac yn amlinellu chwe blaenoriaeth i gyllidwyr a chomisiynwyr.

## 12.1 Profiadau darparwyr gwasanaethau wrth weithio gyda chomisiynwyr

Yn rhan o'n hymchwil, roeddem wedi cyf-weld 166 o ddarparwyr gwasanaethau – pedwar o bob pump ohonynt yn sefydliadau nid-er-elw a bron pob un o'r gweddill yn y sector statudol – a oedd yn gweithio gyda dioddefwyr/goroeswyr ac aelodau o'u teuluoedd. O blith y 121 o ddarparwyr a gafodd incwm drwy ddarparu gwasanaethau a gomisiynwyd, roedd mwy na dwy ran o dair wedi dweud bod y gwasanaethau hyn wedi'u comisiynu gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu lleol, a bron hanner gan y GIG (drwy Fyrddau Gofal Integredig); roedd awdurdodau lleol wedi comisiynu gwasanaethau gan draean ohonynt (drwy Unedau Gofal Cymdeithasol neu Leihau Trais, er enghraifft).

Ar ben hynny, roedd bron tri chwarter o'r rheini a gyfwelwyd yn y sector nid-er-elw wedi cael **cyllid grant**; yn wir, dywedodd y rhan fwyaf o'r darparwyr nid-er-elw eu bod yn cael eu hincwm o nifer o ffynonellau (gweler Ffigur 8).

**Ffigur 8. Nifer y ffynonellau cyllid i ddarparwyr gwasanaethau yn y sector nid-er-elw**




n=136.

Roedd rhai darparwyr gwasanaethau yn teimlo bod **diffyg dealltwriaeth** ymysg eu cyllidwyr/comisiynwyr ynghylch darparu cymorth cam-drin plant yn rhywiol, neu eu bod yn **gosod meini prawf** a oedd yn ei gwneud yn anodd ymateb yn hyblyg i anghenion.

Fodd bynnag, dywedodd eraill fod eu cyllidwyr/comisiynwyr yn **gefnogol** a'u bod yn **ymddiddori** yn eu gwaith.

Roedd pedwar ym mhob pump o ddarparwyr gwasanaethau – yn enwedig y rheini yn y sector nid-er-elw – wedi dweud eu bod yn wynebu **heriau** o ran ariannu a oedd yn gysylltiedig yn aml â'i **natur dymor byr**. Teimlai mwy na hanner fod heriau o ran ariannu wedi gwaethygu yn y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd darparwyr eu bod yn ei chael yn neilltuol o anodd dod o hyd i gyllid at dalu **costau craidd**.


Dywedodd bron dwy ran o dair nad oeddent yn teimlo'n hyderus yn eu gallu i barhau â'u darpariaeth bresennol o wasanaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Rhai o'r anawsterau a nodwyd gan sefydliadau nid-er-elw oedd **penderfyniadau ar ariannu a wnaed ar fyr rybudd**, **mwy o gystadlu am gyllid**, a **gostyngiad cyffredinol yn y cyllid sydd ar gael**.

Dywedwyd bod ansicrwydd o ran ariannu yn **effeithio ar staff**, a bod rhai ohonynt yn gadael y sector; roedd rhai a gyfwelwyd hefyd wedi dweud eu bod wedi gorfod dileu swyddi staff, neu nad oeddent yn gallu cyflogi staff newydd.

Roedd rhai darparwyr wedi disgrifio'r her o orfod derbyn **atgyfeiriadau gan wasanaethau statudol** heb gynnydd cyfatebol yn y cyllid statudol.

Mae mwy o wybodaeth yn ein hadroddiad ***Support Matters: Briefing for Policymakers, Funders and Commissioners***, neu yn yr adroddiad llawn am yr ymchwil ***Mae Cymorth yn Cyfrif: Cyd-destun Gwasanaethau Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru a Lloegr.***

**Ffigur 9. Hyder darparwyr gwasanaethau yn eu gallu i gynnal darpariaeth**




n=159.

## 12.2 Blaenoriaethau i gyllidwyr a chomisiynwyr

Ar sail y cyfweliadau uchod gyda darparwyr gwasanaethau, rydym wedi dynodi chwe blaenoriaeth allweddol i gyllidwyr a chomisiynwyr gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol:

**1. Sicrhau cyllid digonol i wasanaethau barhau â'u darpariaeth bresennol a darparu cymorth amserol.**

Dylai hyn gynnwys cyllid tymor hir, anghyfyngedig ar gyfer costau craidd, i alluogi gwasanaethau i ddarparu cymorth sy'n cwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau ar yr adeg y mae arnynt ei angen; ni ddylai gwasanaethau orfod gweithredu gyda rhestrau aros hir.

Byddai cyllid anghyfyngedig o'r fath yn caniatáu i wasanaethau ehangu a datblygu eu darpariaeth (gweler isod) ar sylfaen ariannol sefydlog. Byddai hefyd yn cryfhau'r sector cyfan, fel y gellir darparu gwasanaethau mewn ymateb i'r galw yn y dyfodol.

Dylai cyllidwyr a chomisiynwyr roi ystyriaeth hefyd i ffyrdd i osgoi creu sefyllfaoedd lle mae gwasanaethau sy'n gwneud gwaith gwerthfawr yn gorfod defnyddio adnoddau prin i gystadlu â'i gilydd neu gynnig llai o wasanaethau am fod cronfeydd cyllid yn gyfyngedig.

Wrth ddarparu cyllid, dylid sicrhau bod darpariaeth o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant, wedi'i seilio ar anghenion plant ac yn cael ei darparu gan weithwyr proffesiynol sydd â phrofiad o weithio gyda phlant.

Dylai cyllidwyr a chomisiynwyr gydweithio i gydariannu a chydgomisiynu gwasanaethau, gyda'r posibilrwydd o sicrhau dulliau ariannu mwy cadarn a chynaliadwy.

**2. Drwy gydweithio'n agos â gwasanaethau, darparu cyllid sy'n eu galluogi i ehangu a datblygu, fel y gallant gwrdd â gwahanol anghenion eu defnyddwyr gwasanaethau presennol a grwpiau newydd o ddefnyddwyr.**

Byddai gwasanaethau'n gallu defnyddio'r cyllid hwn er mwyn:

- ymestyn eu cyrhaeddiad – er enghraifft, drwy hysbysebu eu gwaith (yn gyffredinol neu ymysg grwpiau penodol) a sicrhau eu bod yn hygyrch i lawer
- cynllunio a datblygu'r ddarpariaeth o gymorth newydd, gan gynnwys eu defnyddwyr gwasanaethau wrth wneud hynny – gyda digon o amser ac adnoddau i werthuso'r ddarpariaeth honno*
- edrych ar wahanol fodelau cymorth, fel y gallant addasu yn ôl anghenion defnyddwyr gwasanaethau penodol (er enghraifft, drwy gynnig hyblygrwydd o ran math a pharhad y cymorth a ddarperir, a gweithredu polisi drws agored fel bod defnyddwyr gwasanaethau yn gallu dychwelyd i gael rhagor o gymorth os bydd angen).

Dylai cyllidwyr a chomisiynwyr gymryd i ystyriaeth y goblygiadau o ran yr angen am gyllid ychwanegol i alluogi gwasanaethau i ymateb yn fwy cynhwysfawr i anghenion defnyddwyr gwasanaethau, o ran hygyrchedd ac iaith (e.e. cyllid i dalu am y gost o ddefnyddio cyfieithwyr).

** Os na fyddant yn gwerthuso eu darpariaeth o gymorth, ni all darparwyr gwasanaethau fod yn sicr eu bod yn cwrdd ag anghenion eu defnyddwyr gwasanaethau mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Os byddwch yn rhoi amser a chyllid iddynt ar gyfer hunanwerthuso, mae amrywiaeth o adnoddau ar gael gan y Ganolfan CPRh i'w helpu i wneud hynny – gweler Pennod 13.*

**3. Darparu cyllid a chymorth mewn perthynas â seilwaith gwasanaethau, fel y gallant wneud y canlynol:**

- gwella eu systemau ar gyfer casglu data a'u dadansoddi*
- cynnig eu harbenigedd proffesiynol i weithwyr proffesiynol eraill, heb leihau'r cymorth y maent yn ei ddarparu i ddioddefwyr/goroeswyr ac aelodau o'u teuluoedd
- datblygu a rhannu fframweithiau ac offer ar gyfer asesu ansawdd ac effaith
- datblygu a rhannu ymarfer a gwersi a ddysgwyd mewn perthynas ag ymgysylltu ac ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau (er enghraifft, drwy hwyluso cyfarfodydd rhwng partneriaid i rannu data yn well fel y gallant gael gwell dealltwriaeth o anghenion a sut i'w diwallu).

** Drwy wella eu dulliau o gasglu, cofnodi a dadansoddi data am gam-drin plant yn rhywiol, bydd darparwyr gwasanaethau yn gallu gwneud penderfyniadau gwell o lawer – a darparu tystiolaeth well i chi. Mae Pennod 14 yn egluro sut y gallant wneud hyn gan ddefnyddio ein hadnoddau ni.*

*Efallai y byddwch hefyd am sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn gwybod am ein Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymorth, fel y gallant gael gwybod am wasanaethau lleol eraill y gallent gydweithio â nhw a rhannu offer a mewnwelediadau gyda nhw.*

**4. Darparu cyllid ar gyfer darparu hyfforddiant ac uwchsgilio priodol i weithwyr proffesiynol, boed y rheini'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth arbenigol neu yn y rhwydwaith proffesiynol ehangach..**

Mae angen i weithwyr proffesiynol arbenigol gael eu hyfforddi er mwyn diweddaru a datblygu eu sgiliau mewn meysydd fel y gwahanol fathau o gam-drin plant yn rhywiol a ffyrdd i gynorthwyo plant. Hefyd, gan fod gweithwyr proffesiynol anarbenigol yn chwarae rhan ganolog mewn asiantaethau statudol pan fydd pryderon yn codi am gam-drin plant yn rhywiol, mae angen iddynt gael eu hyfforddi ar frys fel y gellir cael ymateb effeithiol, cydgysylltiedig mewn achosion lle mae plant ac oedolion yn profi effaith y cam-drin hwnnw. Nodir yn gyson mewn adolygiadau ac ymchwiliadau lleol a chenedlaethol nad yw gweithwyr proffesiynol wedi cael y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn hyderus wrth ganfod ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

*Gweler Pennod 15 am fanylion yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan y Ganolfan CPRh, a'n canllaw ar uwchsgilio gweithwyr proffesiynol mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol drwy oruchwyliaeth a chyfarfodydd tîm.*

**5. Comisiynu ymchwil i'r anghenion am gymorth sydd gan grwpiau penodol a'u mynediad at wasanaethau.**

Byddai ymchwil o'r fath yn fuddiol iawn mewn perthynas â bechgyn, plant sydd ag anabledd corfforol a phlant ac oedolion o gefndiroedd ethnig leiafrifol o bob math..

**6. Hyrwyddo arbenigedd y cyllidwyr a chomisiynwyr eu hunain mewn perthynas ag ariannu effeithiol ar gyfer gwasanaethau cymorth cam-drin plant yn rhywiol.**

Byddai hyn yn gallu cynnwys mynediad at wybodaeth a chanllawiau, hyfforddiant ac adnoddau a fydd yn galluogi cyllidwyr a chomisiynwyr i ddeall ac ymateb i'r angen am gyngor mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol. for support around child sexual abuse.

# 13. Cymorth i fonitro a gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau

13.

Mae'r bennod hon yn egluro sut mae darparwyr gwasanaethau yn gallu gwneud defnydd o adnoddau'r Ganolfan CPRh i fonitro a gwerthuso eu darpariaeth eu hunain, os byddant yn cael cyllid ac amser ar gyfer hynny.

Yn ystod ein cyfweliadau ar gyfer y prosiect ymchwil Mae Cymorth yn Cyfrif gyda darparwyr gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, roedd y mwyafrif helaeth wedi dweud eu bod yn monitro profiadau defnyddwyr gwasanaethau yn rheolaidd a'u bod yn asesu ansawdd eu darpariaeth o wasanaethau drwy ddull ffurfiol. Er hynny, dywedodd nifer o ddarparwyr y byddent yn gwerthfawrogi cael cymorth ar gyfer y gweithgareddau hyn, ac roeddent wedi nodi bod pwysau o ganlyniad i fonitro a gwerthuso yn effeithio ar eu gallu i ddarparu eu gwasanaethau.

Mae mwy o wybodaeth yn ein hadroddiad ***Support Matters: Briefing for Policymakers, Funders and Commissioners***, neu yn yr adroddiad llawn am yr ymchwil ***Mae Cymorth yn Cyfrif: Cyd-destun Gwasanaethau Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru a Lloegr.***

Wrth ariannu neu gomisiynu gwasanaethau, mae'n bwysig ystyried sut y gallwch helpu darparwyr y gwasanaethau hynny i ddechrau neu barhau i fonitro a gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd eu gwasanaethau – yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau newydd rydych wedi'u hariannu/comisiynu i'w datblygu a'u darparu. Os byddant yn cael gwell dealltwriaeth o'r effaith, gall hynny eu helpu hefyd i baratoi achos busnes dros barhau i ddarparu cyllid neu ei ddarparu yn y dyfodol.

Lle mae'r darparwyr gwasanaethau rydych yn gweithio gyda nhw yn ystyried monitro a gwerthuso eu darpariaeth am y tro cyntaf neu am wneud hynny'n well, rydym yn argymell eich bod yn tynnu eu sylw at ganllaw y Ganolfan CPRh ***Measuring Your Effectiveness: A Practical Guide for Services Working with Children and Young People Affected by Sexual Abuse***. A thrwy ei ddarllen eich hun, byddwch yn cael gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae darparwyr yn gallu cyflawni'r gweithgareddau hyn, a sut y gallwch chi eu helpu. Mae'n trafod y pynciau hyn, ymysg eraill:

- y buddion a'r heriau o fonitro a gwerthuso
- manteision ac anfanteision y gwahanol ddulliau
- elfennau hanfodol i'w cynnwys cyn cychwyn
- materion allweddol i'w hystyried, yn cynnwys yr angen i gael cydsyniad ar sail gwybodaeth a gweithredu mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma
- proses chwe cham ar gyfer datblygu systemau monitro a gwerthuso
- sut i gynllunio, comisiynu a rheoli gwerthusiad allanol.

Gyda'r canllaw mae cyfres o chwe dalen waith ymarferol ar bynciau fel dynodi canlyniadau sy'n arwydd cryf o newid sylweddol, a phenderfynu pa agweddau ar ei waith y dylai'r darparwr eu mesur a'u gwerthuso.

Fel y mae'r canllaw yn nodi, y cam cyntaf i'w gymryd wrth feithrin y gallu i werthuso yw datblygu Damcaniaeth Newid effeithiol sy'n ymwneud yn benodol â'r gwaith sydd i gael ei werthuso. Amlinellir y broses hon yn ein fideo ***An Introduction to Theory of Change*** outlines the process.

Yn 2017 a 2018, roeddem wedi darparu cyllid i 17 o ddarparwyr gwasanaethau i wella eu gallu i asesu eu heffeithiolrwydd. Efallai y bydd o gymorth i chi ddarllen ***Cronfa Werthuso'r Ganolfan CSA: Adlewyrchiad***, sy'n rhoi crynodeb o brofiadau'r cyfranogwyr, pwyntiau dysgu, heriau a llwyddiannau.

14.

# 14. Cymorth i wella systemau casglu data a dulliau dadansoddi

A key priority for funders and commissioners, as identified by our *Support Matters* research, is to provide funding and support in relation to services' infrastructure – so that, for example, they can improve their data collection systems and analysis. This chapter explains why data improvement is important, and how one CSA Centre resource can help.

## 14.1 Pwysigrwydd cysondeb data

Er bod cam-drin plant yn rhywiol wedi'i ddynodi'n fygythiad cenedlaethol, mae'r data a gaiff eu casglu – am ddioddefwyr/goroeswyr, eu profiadau, y bobl sy'n cyflawni'r cam-drin, a'r ymateb iddo – yn gyfyngedig ac anghyson. O ganlyniad i hyn, mae darparwyr gwasanaethau, cyllidwyr/comisiynwyr a llunwyr polisi lleol a chenedlaethol heb y wybodaeth glir sydd ei hangen i wneud penderfyniadau am y gwasanaethau ac ymyriadau y dylent eu darparu i atal, ymyrryd ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

Er mwyn gwella ansawdd a chysondeb y data y mae sefydliadau'n eu casglu wrth ddarparu eu gwasanaethau, mae'r Ganolfan CPRh wedi datblygu set ddata craidd – y **templed casglu data** – sy'n cynnwys rhestr o'r wybodaeth rydym yn argymell ei chasglu gan sefydliadau sy'n ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, a chanllaw ar sut i'w chofnodi.

Mae'r templed yn un y gellir ei fabwysiadu gan sefydliadau yn y sectorau statudol, nid-er-elw a phreifat, yn cynnwys y rheini sy'n delio â materion ehangach (fel camfanteisio troseddol ar blant) os ydynt yn cynnwys cam-drin plant yn rhywiol yn eu cylch gwaith. Ei bwrpas yw *gwella'r* wybodaeth y maent yn ei chasglu, *nid cymryd ei lle*; rydym yn cydnabod y bydd gwahanol flaenoriaethau gan wahanol sefydliadau ac y byddant yn casglu data i gyrraedd amcanion sefydliadol amrywiol iawn, ond credwn fod un set o ddata craidd y mae angen i bob sefydliad ei chasglu'n systematig.

## 14.2 Beth yw'r manteision?

Os bydd darparwr gwasanaethau yn casglu data craidd yn systematig, bydd ganddo well gwybodaeth i'w defnyddio i wneud gwell penderfyniadau a darparu gwell gwasanaethau. Er enghraifft:

- Drwy fonitro graddau a natur y cam-drin rhywiol ar blant y mae'r gwasanaeth yn dod ar ei draws (e.e. patrymau o gam-drin yn amgylchedd y teulu, camfanteisio rhywiol ar blant, a cham-drin yng nghyd-destun gangiau), gall y darparwr ganfod yr angen am wasanaethau, hyfforddiant staff, etc yn yr ardal leol a siapio gwasanaethau i gwrdd yn well ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau.

- Drwy gofnodi proffiliau defnyddwyr gwasanaethau yn systematig (e.e. ar sail rhyw neu ethnigrwydd), bydd hynny'n gallu helpu'r darparwr i ddeall beth yw cyrhaeddiad y gwasanaeth yn y boblogaeth leol, nodi bylchau, ac edrych ar ffyrdd i gyrraedd grwpiau lle nad oes dynodi digonol.

- Drwy ddeall proffiliau'r bobl sy'n cyflawni'r cam-drin (e.e. eu hoed) a'r cyd-destun lle mae'r cam-drin yn digwydd (e.e. lleoliadau, sefyllfaoedd), gall hynny fod o gymorth i ddatblygu gwaith mewn perthynas ag atal, dynodi cynharach ac ymyrryd.

- Drwy ddeall patrymau datgelu a ffynonellau atgyfeiriadau, gall hynny helpu'r darparwr i ganfod sut mae pryderon am gam-drin plant yn rhywiol yn dod i'r golwg, a gweld yr angen am hyfforddiant a hybu ymwybyddiaeth ymysg sefydliadau ac ymarferwyr nad ydynt yn atgyfeirio achosion i'r gwasanaeth.

Yn ogystal â hyn, mae defnydd o'r templed casglu data yn gallu arwain at well canlyniadau yng nghyd-destun arolygiadau a chodi arian, gan fod y darparwr yn gallu darparu tystiolaeth glir i chi ac i'r rheini sy'n ei arolygu.

A thrwy gadw cofnodion da, bydd llai o amser staff yn cael ei dreulio (a llai o arian yn cael ei wario) ar lenwi bylchau mewn gwybodaeth a chysoni data ar ôl eu casglu.

## 14.3 Mabwysiadu'r templed casglu data

Rydym yn argymell eich bod yn tynnu sylw'r darparwyr gwasanaethau rydych yn gweithio gyda nhw at ein cyhoeddiad ***Improving Your Data on Child Sexual Abuse: A Practical Guide for Organisations***, sy'n cynnwys:

- dadansoddiad trwyadl o'r holl feysydd a chategorïau data ar y templed casglu data
- gwybodaeth gefndir am y templed a sut y cafodd ei ddatblygu
- cyngor cam-wrth-gam ar fabwysiadu'r templed, o'r ymarfer presennol ar gyfer archwilio'r data sy'n cael eu casglu a'u cofnodi hyd at lunio adroddiadau rheolaidd
- cwestiynau ac ystyriaethau a allai godi, a mewnwelediadau o astudiaeth achos ac astudiaeth beilot.

Er mwyn deall faint o amser ac adnoddau y bydd ar y darparwr gwasanaethau eu hangen i fabwysiadu'r templed casglu data, dylech chi hefyd ddarllen y ddogfen ***Improving Your Data on Child Sexual Abuse: A Practical Guide for Organisations***. Gallai fod yn fuddiol hefyd i chi edrych ar yr astudiaeth achos a'r astudiaeth beilot sy'n gysylltiedig:

- ***Nodweddion a Phrofiadau {lant a Phobl Ifainc a Fynychodd Ganolfan Atgyfeirio ar gyfer Ymosodiadau Rhywiol Y Santes Fair, Manceinion: Fwyaf Adolygiad o 986 o Ffeiliau Achos***
- ***Gwella Data Asiantaethau ar Gam-drin Plant yn Rhywiol: Astudiaeth Beilot o'r Templed Casglu Data ar Gam-drin Plant yn Rhywiol***.

15.

# 15. Cymorth ar gyfer hyfforddi ac uwchsgilio

Mae pwysigrwydd hyfforddiant ac uwchsgilio i staff gwasanaethau cam-drin plant yn rhywiol – ac i chi fel cyllidwr/comisiynydd y gwasanaethau hynny – yn cael ei gydnabod yn ein hymchwil ar gyfer *Mae Cymorth yn Cyfrif*, lle mae cyllid ar gyfer y gweithgareddau hyn wedi'i nodi'n flaenoriaeth. Mae'r bennod hon yn tynnu sylw at yr adnoddau perthnasol sydd ar gael gan y Ganolfan CPRh.

## 15.1 Cyrsiau hyfforddi

Mae ein **cwrs e-ddysgu** ar adnabod ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn amgylchedd y teulu yn cael ei gynnig yn rhad ac am ddim. Mae'r cwrs hwn, sy'n cymryd dim ond 90 munud i'w gwblhau, yn cynnwys tri modiwl diddorol, gyda thasgau rhyngweithiol, fideos esboniadol ac asesiad terfynol. Mae'n gwrs ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar bob cam yn eu gyrfa, i'r rheini sydd newydd ddechrau ar waith diogelu, neu fel cwrs gloywi buddiol. Mae hefyd yn ffordd hawdd i chi ddatblygu neu ddiweddaru'ch gwybodaeth eich hun.

Yn ogystal â hyn, rydym yn cynnig dewis helaeth o gyrsiau hyfforddi hanner diwrnod a diwrnod cyfan i weithwyr proffesiynol, ar bynciau sy'n ymwneud â nifer o agweddau ar ddeall ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Mae mwy o wybodaeth yn ein **llawlyfr hyfforddi**.

## 15.2 Uwchsgilio drwy oruchwyliaeth a chyfarfodydd tîm

Mae trafodaethau myfyriol – yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaethau y maent wedi gweithio gyda nhw neu ar eu credoau ac agweddau meddwl eu hunain – yn gallu bod yn ffordd amhrisiadwy i helpu gweithwyr proffesiynol i wella eu hymarfer ac, yn y pen draw, darparu ymateb mwy effeithiol ac ystyriol i achosion o gam-drin plant yn rhywiol.

Mae ein canllaw ***Using Supervision and Team Meetings to Improve Responses to Child Sexual Abuse*** wedi'i fwriadu ar gyfer 'goruchwylwyr ymarfer' ym maes gofal cymdeithasol plant, ond mae hefyd yn berthnasol i bawb sy'n rheoli neu'n goruchwylio gweithwyr proffesiynol yn y maes hwn. Mae'n egluro sut i hwyluso trafodaethau o'r fath mewn sesiynau goruchwylio i unigolion a grwpiau, ac mewn cyfarfodydd tîm. Mae hefyd yn egluro sut i ddefnyddio gwahanol gyhoeddiadau sydd ar gael gan y Ganolfan CPRh – yn enwedig y gyfres 'Negeseuon allweddol o ymchwil' (gweler Atodiad 1) – i ddarparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer myfyrio a thrafod. Yn ogystal â gwella'r ymarfer gan weithwyr proffesiynol, gall hyn eu helpu hefyd i gyflawni gofynion am ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r canllaw yn cydnabod bod angen rhoi amser a lle i weithwyr proffesiynol fyfyrio ar eu gwaith a datblygu ymarfer seiliedig ar dystiolaeth – rhywbeth y gallwch chi ei sicrhau wrth bennu lefel y cyllid ar eu cyfer nhw a'u gwaith. Yn ein hymchwil ar gyfer Mae *Cymorth yn Cyfrif*, roedd nifer mawr o ddarparwyr gwasanaethau wedi dweud bod eu staff yn gorflino, yn rhannol o ganlyniad i weithio hyd eithaf eu gallu a gorfod gweithredu rhestrau aros

Mae mwy o wybodaeth yn ein hadroddiad ymchwil ***Mae Cymorth yn Cyfrif: Cyd-destun Gwasanaethau Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru a Lloegr***.

# Cyfeirnodau

# Cyfeirnodau


Adisa, O., Hermolle, M. ac Ellis, F. (2023) *Denial, Disbelief and Delays: Examining the Costs on the NHS of Delayed Child Sexual Abuse Disclosures in England and Wales*. Ipswich: Survivors in Transition.

Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (2024) *National Strategic Assessment 2024 of Serious and Organised Crime*. Llundain: Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol.

Bethel, C. (2022) *Child House in a Box Toolkit (2nd edition)*. Llundain: Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throsedd.

Creedon, M. (2023) *Independent Review into the Police-led Management of Registered Sex Offenders in the Community: Executive Summary*. Llundain: Swyddfa Gartref.

Edwards, J. (2018) *"A Light in the Dark": Impact Evaluation and Social Return on Investment Analysis of The Green House Therapeutic Service for Children and Young People Who Have Experienced Sexual Abuse*. Bryste: The Green House.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (2024) *The HMPPS Approach to the Management and Rehabilitation of People Convicted of Sexual Offences (version 1.4)*. Llundain: Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF.

Hackett, S. (2010) Children and young people with harmful sexual behaviours. Yn Barter, C. a Berridge, D. (gol.) *Children Behaving Badly? Peer Violence between Children and Young People*. Chichester: Wiley-Blackwell. **https://doi.org/10.1002/9780470976586.ch9**

Jay, A., Evans, M., Frank, I. a Sharpling, D. (2022) *Adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol*. Llundain: Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Karsna, K. a Bromley, P. (2024) *Child Sexual Abuse in 2022/23: Trends in Official Data*. Barkingside: Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol. https://doi.org/10.47117/ETKQ3400

Karsna, K. a Kelly, L. (2021) *The Scale and Nature of Child Sexual Abuse: Review of Evidence (revised edition)*. Barkingside: Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol. **https://doi.org/10.47117/OBKC1345**

Kewley, S., Mhlanga-Gunda, R. a Van Hout, M. (2023) Preventing child sexual abuse before it occurs: Examining the scale and nature of secondary public health prevention approaches. *Journal of Sexual Aggression*, 29(1):1–33. **https://doi.org/10.1080/13552600.2021.2000651**

Knack, N., Winder, B., Murphy, L. a Fedoroff, J. (2019) Primary and secondary prevention of child sexual abuse. *International Review of Psychiatry*, 31(2):181–194. **https://doi.org/10.1080/09540261.2018.1541872**

Llywodraeth Cymru (2019) *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

McKibbin, G. a Humphreys, C. (2020) Future directions in child sexual abuse prevention: An Australian perspective. *Child Abuse & Neglect*, 105:104422. **https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2020.104422**

Naldrett, G., Efthymiadou, E., Simonet, R., McAree, C. a Findlater, D. (2022) *Confidential Support to Prevent Child Sexual Abuse: A Review of the First 12 Months of Live Chat on the Stop It Now! UK and Ireland Helpline*. Bromsgrove: Lucy Faithfull Foundation.

Pwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop (2021) Recommendation of the Committee of Ministers to member states regarding the assessment, management and reintegration of persons accused or convicted of a sexual offence (CM/Rec(2021)6). **https://search.coe.int/cm?i=0900001680a4397a**

Radakin, F., Scholes, A., Soloman, K., Thomas-Lacroix, C. a Davies, A. (2021) *The Economic and Social Cost of Contact Child Sexual Abuse*. Llundain: Swyddfa Gartref.

Rowson, M. (2024) A Real Safe Space: *How Rape Crisis Centres Support Children and Young People Who Have Experienced Child Rape and Sexual Abuse* (CRaSA). Leeds: Argyfwng Trais Cymru a Lloegr.

Saied-Tessier, A. (2014) *Estimating the Costs of Child Sexual Abuse in the UK*. Llundain: NSPCC.

Sefydliad Gofal Cyhoeddus (2014) *Commissioning for Health and Social Care*. Llundain: Sage Publications.

Warrington, C., Beckett, H., Ackerley, E., Walker, M. ac Allnock, D. (2017) *Making Noise: Children's Voices for Positive Change after Sexual Abuse. Children's Experiences of Help-seeking and Support after Sexual Abuse in the Family Environment*. Luton: University of Bedfordshire.

# Atodiadau

# Atodiad 1. Adnoddau eraill o'r Ganolfan CPRh

Mae'r Ganolfan CPRh yn cyhoeddi adnoddau o bob math sy'n gallu'ch helpu i gefnogi gwasanaethau cymorth cam-drin plant yn rhywiol.

## Cyhoeddiadau ymchwil

Yn y saith mlynedd diwethaf, rydym wedi cynhyrchu adroddiadau ymchwil o lawer math, yn taflu goleuni ar yr agweddau canlynol ar gam-drin plant yn rhywiol a'r ymateb iddo:

- **Graddau a natur cam-drin plant yn rhywiole** – yn cynnwys ein hadroddiad blynyddol ar *Trends in Official Data* a ffeithluniau cysylltiedig, ynghyd ag ymchwil a chanllawiau mewn perthynas â chofnodi data cam-drin plant yn rhywiol.

- **Deall cyflawni cam-drin plant yn rhywiol** – ein teipoleg troseddau gan oedolion, a'n rhaglen ymchwil ar bobl sy'n ymwneud â chamfanteisio rhywiol ar blant.

- **Amddiffyn plant** – adroddiadau o'n hymchwil i weithgarwch gan yr heddlu i ymyrryd â cham-drin plant yn rhywiol, gwaith diogelu cymhleth, a'r defnydd o offer a rhestrau gwirio i asesu risg.

- **Cynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr** – yn cynnwys ein hymchwil ar gyfer *Mae Cymorth yn Cyfrif* i gyd-destun y ddarpariaeth o wasanaethau sy'n ymateb gam-drin plant yn rhywiol; dadansoddiad o effeithiolrwydd gwasanaethau ac anghenion grwpiau penodol o blant (yn cynnwys plant ag anawsterau dysgu, y rheini sydd â phrofiad o dderbyn gofal, a phlant o gefndiroedd ethnig leiafrifol) a'r ymatebion iddynt; a chanllawiau i wasanaethau ar fesur eu heffeithiolrwydd.

Yn ogystal â hyn, mae ein cyfres **'Negeseuon allweddol o ymchwil'** yn crynhoi canfyddiadau pwysig o ymchwil a gyhoeddwyd ar wahanol agweddau ar gam-drin plant yn rhywiol a'r cyd-destunau lle mae'n digwydd. Mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys:

- nodi datgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddynt
- effeithiau cam-drin plant yn rhywiol
- plant sy'n derbyn gofal a cham-drin plant yn rhywiol
- cam-drin plant yn rhywiol gan oedolion
- cam-drin plant yn rhywiol gan oedolion mewn cyd-destunau ar-lein
- plant a phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol
- ymddygiad rhywiol niweidiol mewn cyd-destunau ar-lein
- cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu, yn cynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol gan frodyr a chwiorydd
- cam-drin plant yn rhywiol mewn cyd-destunau sefydliadol
- camfanteisio rhywiol ar blant.

Mae pob un o'r papurau hyn, a ddylai gymryd llai nag awr i'w darllen, yn cynnwys y dystiolaeth berthnasol ddiweddaraf o waith ymchwil mewn trosolwg cryno a hawdd ei ddeall. Byddant yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau eu bod yn cyflwyno'r dystiolaeth o'r ymchwil ddiweddaraf.

## Adnoddau at ymarfer

Rydym yn cynnig dewis cynyddol o ganllawiau ymarfer i hyrwyddo gwybodaeth, sgiliau a hyder gweithwyr proffesiynol ar gyfer canfod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Maent yn cynnwys:

- ***Arwyddion a Dangosyddion: Templed ar gyfer Adnabod a Chofnodi Pryderon ynghylch Cam-drin Plant***.
  Templed i helpu gweithwyr proffesiynol mewn nifer o wahanol sefydliadau ac asiantaethau i fynd ati'n systematig i arsylwi, cofnodi a chyfleu eu pryderon am y posibilrwydd o gam-drin plant yn rhywiol.

- ***Cyfathrebu gyda Phlant: Llawlyfr i Rai Sy'n Gweithio gyda Phlant Sydd yn, neu Efallai wedi, Cael eu Cam-drin yn Rhywiol***.
  Mae'r llawlyfr hwn, sydd ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant (e.e. gweithwyr cymdeithasol, athrawon, swyddogion heddlu, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr y sector gwirfoddol ac arweinwyr/gweithwyr ffydd), yn ceisio eu helpu i gyfathrebu â phlant mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol, yn cynnwys lle maent yn pryderu bod cam-drin o'r fath yn digwydd.

- ***Cefnogi Rhieni a Gofalwyr: Canllaw i'r Rhai Sy'n Gweithio gyda Theuluoedd y Mae Cam-drin Plant yn Rhywiol yn Effeithio Arnynt***.
  Canllaw i bawb sydd â rôl sy'n dod â nhw i gysylltiad â rhieni neu ofalwyr i blant dan 18 mlwydd oed. Mae'n ceisio eu helpu i ymateb mewn ffordd gefnogol i rieni lle codwyd pryderon ynghylch cam-drin eu plentyn yn rhywiol, neu lle mae cam-drin o'r fath wedi'i ganfod.

- ***Rheoli Risg a Thrawma ar ôl Troseddu Rhywiol Ar-lein: Canllaw Diogelu i'r Teulu Cyfan***.
  Mae'r canllaw hwn wedi'i fwriadu ar gyfer ymarferwyr gwaith cymdeithasol a goruchwylwyr ymarfer, i'w helpu wrth ystyried a phenderfynu pan fyddant yn asesu ac yn cynorthwyo teulu lle mae rhiant yn destun ymchwiliad gan yr heddlu am gyrchu deunydd cam-drin plant yn rhywiol.

- ***Cam-drin Rhywiol rhwng Brodyr a Chwiorydd: Golwg Gyffredinol ar Wybodaeth ac Ymarfer ac Ymddygiad Rhywiol rhwng Brodyr a Chwiorydd: Canllaw ar Sut i Ymateb i Ymddygiad Amhriodol, Problemus a Chamdriniol***.
  Dau adnodd, un yn crynhoi'r ystyriaethau a heriau sy'n codi yn sgil cam-drin rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd a'r llall yn helpu gweithwyr proffesiynol i ddelio â phenderfyniadau allweddol ar wahanol gamau pan fydd pryderon wedi'u codi ynghylch ymddygiad rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd. Gall ymddygiad o'r fath gwmpasu ymddygiad sy'n briodol o safbwynt datblygiadol yn ogystal ag ymddygiad sy'n amhriodol, problemus neu gamdriniol.

- ***Cynllunio Diogelwch mewn Addysg: Canllaw i Weithwyr Proffesiynol yn Rhoi Cymorth i Blant yn Dilyn Digwyddiad o Ymddygiad Rhywiol Niweidiol***.
  Er ei fod wedi'i fwriadu ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau addysg, mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth a fydd yn ddefnyddiol hefyd i ymarferwyr eraill sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi dangos ymddygiad rhywiol niweidiol tuag at blentyn arall.

Mae ein cyfres o 12 ffilm fer at **gefnogi ymarfer** yn ategu'r adnoddau hyn, gyda'r bwriad o feithrin hyder mewn gweithwyr proffesiynol i ganfod ac ymateb i bryderon am gam-drin plant yn rhywiol.

Mae ein holl adnoddau at ymarfer yn ategu **Llwybr Ymateb Cam-drin Plant yn Rhywiol** y Ganolfan CPRh: adnodd ar-lein i dywys gweithwyr proffesiynol mewn sawl maes drwy'r holl gamau ar gyfer amddiffyn a diogelu plant a'u teuluoedd pan fo pryderon am gam-drin rhywiol. Mae'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn, sut mae'n teimlo a'i obeithion o ran yr hyn a fydd yn digwydd. Mae'n egluro sut i ymateb i bryderon am gam-drin plant yn rhywiol ar bwyntiau allweddol, o'r pryderon cyntaf a'r help cynnar ar gyfer diogelu hyd at ymatebion drwy gamau amddiffyn plant a chyfiawnder troseddol – yn cynnwys lle mae'r ymatebion hynny'n digwydd yr un pryd. Mae'r Llwybr Ymateb nid yn unig yn dweud beth ddylai gweithwyr proffesiynol ei wneud: mae hefyd yn eu helpu i ddeall sut i weithredu, gan eu grymuso i ddysgu rhagor am y rolau y maen nhw a'u cydweithwyr yn gallu eu chwarae wrth amddiffyn plant a'u cynorthwyo.

## Adnoddau eraill

Yn ogystal â darparu **cwrs e-ddysgu 90 munud o hyd** ar adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu, sydd ar gael am ddim ac sy'n addas i ymarferwyr ar bob cam yn eu gyrfa, rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi am dâl i ymarferwyr gwaith cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill. Gweler ein tudalen we **Cyrsiau** am fanylion.

Rydym hefyd yn cynnal cyfres o **weminarau** am ddim ac yn cyhoeddi **blogiau** o lawer math sydd wedi'u hysgrifennu gan aelodau o'n staff ac eraill sy'n gweithio yn y maes, ar bynciau sy'n ymwneud ag ymarfer mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol.

Canolfan CPRh
Tanners Lane,
Barkingside,
Ilford, Essex,
IG6 1QG.

Tynnwyd y ffotograffau yn y cyhoeddiad hwn gan ddefnyddio actorion ac nid ydynt yn darlunio sefyllfaoedd gwirioneddol.